www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO’r Wyddfa

£1
RHIF 524
Mehefin
2024

# YMGYRCH I BRYNU HEN LYFRGELL ‘CARNEGIE’ DEINIOLEN

Pwy fyddai’n meddwl bod cysylltiad rhwng un o brif ddinasoedd y byd, Efrog Newydd, ac un o bentrefi chwarelyddol Arfon?

Adeiladwyd Carnegie Hall yn Efrog Newydd yn 1891 a pherfformiodd mawrion y byd yno. Ond rhannodd Andrew Carnegie fwyafrif helaeth o’i ffortiwn er budd elusennau, a chyllidodd gyfres o lyfrgelloedd ac adnoddau addysgiadol ar draws y byd.

Rhwng 1883 ac 1929, agorwyd 2,509 ‘llyfrgell Carnegie’ ar draws y byd, gyda 14 ohonyn nhw yng Nghymru. Roedd rhaid i gymuned ddangos ymrwymiad a chefnogaeth ariannol i dderbyn llyfrgell o’r fath. Un a fu’n llwyddiannus oedd Deiniolen, a dderbyniodd £1,500 er mwyn agor llyfrgell yn 1913.

Yn anffodus daeth defnydd yr adeilad fel llyfrgell i ben ers talwm iawn.

Dyma beth oedd gan rhai o aelodau’r Pwyllgor Pentra i’w ddweud yn ddiweddar mewn cyfweliad gyda’r BBC:


“Roedd y diwydiant llechi yn gyflogwr pwysig yma tan cau Chwarel Dinorwig yn 1969. Gobaith aelodau’r pwyllgor yw manteisio ar y statws safle UNESCO a enillwyd oherwydd tirwedd chwarelyddol y gogledd-orllewin dair blynedd yn ôl. Mae’r pentref yn un unigryw ac yn parhau i fod yn bentref ‘clos.’

I gyrraedd chwarel Dinorwig rhaid gyrru drwy Ddeiniolen, ond mae Deiniolen yn haeddu llawer gwell na bod yn lle i basio trwyddo. Mae angen bod yn lle i’w ddatblygu a gwneud Deiniolen yn lleoliad mae pobl sydd am weld chwarel Dinorwig am stopio yma, datblygu twristiaeth, a gweld pobl yn mwynhau’r ardal leol yn ei chyfanrwydd.”

Gobaith y grŵp cymunedol Pwyllgor Pentra Deiniolen yw prynu’r hen lyfrgell er budd y gymuned. Cyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Gwynedd er mwyn trosi’r adeilad a chwblhawyd adroddiad dichonoldeb diolch i arian Cronfa Cist Cyngor Gwynedd. Y cam nesaf yw chwilio am arian grant er mwyn prynu’r adeilad a’i droi’n adnodd fydd o ddefnydd i’r gymuned gyfan.


Hen Lyfrgell





Bydd angen £400,000 i wireddu’r freuddwyd.

Ffurfiwyd y Pwyllgor yn 2017 gyda’r nod o gael lleoliad mwy i gynnal digwyddiadau torfol. Mae hybiau bychain all ddal hyd at 30 o bobl yn y pentref, ond gyda chymuned o bron i 2,000 o bobl mae angen gofod mwy i gynnal cyngherddau, Clwb Ieuenctid, Eisteddfod Pentref (ni chynhaliwyd Eisteddfod yn y pentra’ ers y pandemig) a phob math o weithgareddau amrywiol eraill. Gweledigaeth y Pwyllgor yw dod a’r adeilad pwysig yma, lle roedd pobl yn dod i ddysgu ac i ddatblygu sgiliau newydd, yn ôl i ddwylo’r gymuned.

Lleolir Clwb Snwcer Deiniolen yn yr adeilad ers 100 mlynedd, a’r gobaith yw cyd-weithio mewn partneriaeth gyda’r clwb wrth ddiogelu dyfodol y Clwb Snwcer.

Deiniolen yw’r unig bentref yn yr ardal bellach lle nad oes Neuadd Gymuned, felly mae angen elfen o gydraddoldeb er mwyn cael yr un cyfleusterau yn Neiniolen a phentrefi eraill yn y cyffiniau. Pam gadael Deiniolen allan?

Mae Deiniolen yn bentref arbennig, mae yma bobl arbennig, ond dydyn nhw ddim yn cael y cyfle i ddangos eu doniau ac mae hynny’n drasiedi.

*(Gyda diolch i Gareth Wyn Williams BBC Cymru am ganiatâd i ddefnyddio’r cyfweliadau a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru, S4C a Cymru Fyw)*

## Yn y rhifyn hwn:


- Apêl am Drefnydd Ariannol - tud 2
- Holi Hwn a Holi Hon: Caryl Rees - tud 14
- Cofio Gwrhydri Chwarelwyr Dinorwig - tud 18
- Samariaid: 40 mlynedd - tud 23
- Chwilota: Compton House, Waunfawr - tud 27


Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi’n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



14



27



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.



## Llythyr Panel Golygyddol

Hoffai'r Panel Golygyddol wneud apêl daer ar gyfer rhywun i lenwi'r swydd o Drefnydd Ariannol. Mae Gorowny wedi nodi ers tro, oherwydd amryw resymau, ei fod am ymddeol, felly mae angen rhywun i gamu i'r swydd ar fyrder.

Mae croeso mawr i chi gysylltu efo Goronwy os hoffech mwy o wybodaeth am ofynion y swydd, drwy ffonio - 01286 674839.

Heb swyddogion ni all yr Eco gario 'mlaen.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

***Y Panel Golygyddol***

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£50 Barry Davies er cof am Kathleen Davies, Deiniolen
£40 Dienw (Llanrug)
£30 Gomer Davies, Tregarth
£20 Glenda Morris
£20 Elizabeth a Ronald Pleming, Cartrefle, Bryn Moelyn, Llanrug
£10 Anwen Owen, Bryn Moelyn
£10 Helen Evans Munro, Cynan, Ffordd yr Orsaf, Llanrug
£10 Marjorie Roberts, Ty Newydd, Bethel
£10 Mrs Glenys Griffith, Llanharan (Gynt o Bethel)
£10 Eluned Jones, Mochdre
£10 Gwerfyl McCarthy, Childwall, Lerpwl
£10 Mrs A Sidebotham, High Peak, Derby
£10 Dienw, Cwm-y-Glo
£10 Ceinwen Jones, Porthaethwy
£10 Dienw, Llanrug
£10 Dewi a Nan Rowlands, Bethel
£10 Bet Evans, Bethel
£10 Sion ac Ann Jones, Bethel
£10 Alan Pritchard, Dolafon
£ 3 Emyr Wyn, Wenallt, Bethel

Cyngor Cymuned Llanberis - Grant £300
Cyngor Cymuned Llanrug - Grant £900

Ymddiheuriadau nad yw rhai o'r rhoddion uchod wedi ymddangos mewn rhifynnau blaenorol o'r Eco. Diolch o galon i chi i gyd.

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

ECO'r Wyddfa
**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Gorffennaf | 14 Mehefin | 28 Mehefin |
| Awst a Medi | 12 Gorffennaf | 26 Gorffennaf |
| Hydref | 13 Medi | 27 Medi |

# Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Gwres:** Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yn adrodd fod tymheredd cyfartaledd y byd dros y deuddeng mis diwethaf yn uwch nac erioed – cynnydd o 1.58C. Mae hyn yn uwch na'r trothwy a gytunwyd arno gan wledydd y byd er ceisio rheoli cynhesu byd-eang.

- **Prif Weinidog:** Simon Harris, yn 37 mlwydd oed yn cael ei ethol yn Taoiseach ieuengaf yn hanes Gweriniaeth Iwerddon.

- **Parciau Morol:** Gwlad Groeg yn bwriadu gwario tua £665 miliwn i sefydlu a gwarchod parciau morol a lleihau llygredd arfordirol. Mae'r wlad, sydd â miloedd o ynysoedd, gyda'r arfordir hwyaf ym Môr y Canoldir, ac fel rhan o'r cynllun bwriedir sefydlu dau barc morol, un ym Môr Ionia a'r ail ym Môr Aegean.

- **Twyll?** Mae'r pedwar rhedwr a orffennodd ar y blaen yn Hanner Marathon Bejing wedi eu diarddel. Honnir fod dau redwr o Kenya ac un o Ethiopia, oedd yn arwain y ras, wedi arafu'n sylweddol wrth gyrraedd y llinell derfyn a chaniatau i redwr o China fynd heibio ac 'ennill'. Gorffennodd y tri arall yn gydradd ail. Mae trefnwyr y Ras wedi gorchymyn i'r pedwar dalu eu henillion ariannol yn ôl.

- **Ramses:** Mae cofgolofn o ben Ramses II a gafodd ei ddwyn o ddinas Abydos yn yr Aifft dros 30 mlynedd yn ôl, wedi ei ddychwelyd. Cafodd ei ddarganfod mewn arddangosfa yn Llundain yn 2013 cyn cael ei anfon i'r Swisdir a'i drosglwyddo'n ddiweddarach i Lysgenhadaeth yr Aifft yn y wlad honno. Does dim gwybodaeth am y lleidr.

- **Baguette:** Dros ddau gant o gogyddion yn cystadlu yn y *"Grand Prix de la baguette"* ym Mharis er ceisio darganfod y baguette mwyaf blasus yn y wlad. Mae'r panel beirniaid bob blwyddyn yn cynnwys Maer Paris a chwech o ddinasyddion a gaiff eu dewis ar hap. Xavier Natry enillodd y wobr o £3,500 i'w Fecws Utopia a chytundeb blwyddyn i gyflenwi Palas Elysee efo bara am flwyddyn.

- **Marathon:** Fred Tomlinson, 75 mlwydd oed, oedd yr olaf i orffen Marathon Llundain, 13 awr wedi'r cychwyn. Mae'n cystadlu'n flynyddol i godi arian i elusen plant y Rainbow Trust. Datgelodd y trefnwyr hefyd fod 840,000 o bobl eisoes wedi ceisio am le ym marathon 2025.

- **Gitâr:** Mae gitâr o eiddo John Lennon yn cael ei gwerthu ar ocsiwn yn ystod y mis hwn. Mae'r gwerthwr yn disgwyl pris hyd at £650,000 amdani.

- **Arfau Rhyfel:** Mae Sefydliad Heddwch Rhyngwladol Stockholm wedi cyhoeddi mai China a'r UDA sy'n gwario fwyaf ar arfau milwrol yn flynyddol. Y Deyrnas Unedig yw'r chweched ar y rhestr gyda gwariant o 75 biliwn o ddoleri.

- **Glaw:** Mae o leiaf 31 o bobl wedi colli eu bywydau, a dros 60 arall ar goll oherwydd llifogydd difrifol yn nhalaith Rio Grande do Sul ym Mrasil. Mae dros 10,500 o bobl wedi colli eu cartrefi mewn dros 154 o drefi a dinasoedd, a dros 300,000 heb drydan. Fe'i disgrifiwyd fel y glawogydd gwaethaf erioed yn hanes y dalaith.

- **Llosgfynydd:** Mae'r 10,000 o drigolion oedd yn byw ar ynys Sitare yn Indonesia wedi eu symud oddi yno am amser amhenodol oherwydd i losgfynydd Ruang echdorri.

- **Sgerbydau:** Mae pump sgerbwd wedi eu darganfod yn hen bencadlys Hermann Goring yng Ngwlad Pwyl: tri oedolyn, un plentyn ac un baban. Roedd dwylo a thraed pob un ohonynt wedi eu torri i ffwrdd. Hyd yma, does dim eglurhad ar y darganfyddiad echrydus.

- **Yswiriant:** Mae pris yswiriant cerbydau modur wedi codi ar gyfartaledd tua £157 yn ystod y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn.

- **Golff:** Mae'r Bencampwriaeth Agored, sydd i'w chynnal eleni yn Troon wedi cyflwyno'r twll hiraf erioed yn hanes y gystadleuaeth. Mae'r pellter o'r 'tee' i'r twll yn 623 llathen.

## Annwyl ddarllenwyr yr Eco,

**Pwyllgor Pentra Deiniolen**
Mae aelodau'r bwrdd wedi bod yn brysur yn paratoi ceisiadau am arian. Bu ein cais am arian o'r gronfa Ffyniant Bro lleol (Gwynedd) yn aflwyddiannus yn anffodus.

Rydym bellach wedi rhoi cais llawn i mewn am arian o Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac rydym yn aros i glywed am y cais hwnnw. Mae yna andros o gystadleuaeth am yr arian hwn felly pwy a ŵyr os byddwn yn llwyddiannus. Rydym hefyd wedi cael gwybod wythnos diwethaf bod ein cais cychwynnol am grant o Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi llwyddo yn y rownd gyntaf ac mae gennym dri mis i gwblhau'r cais hwnnw. Croesi bysedd.

Diolch i @bbc am dynnu sylw at yr ymgyrch pwysig hwn a diolch i'r Cwmni Penseiri Dewis am ein helpu i baratoi cynlluniau cychwynnol.


Rydym yn griw bach iawn ar hyn o bryd. Rydym wir angen mwy o bobl o'r pentref i'n helpu,

Os hoffech wirfoddoli eich amser i ymuno efo ni, cysylltwch gyda ni drwy dudalen fbk Pwyllgor Pentra Deiniolen CIC neu drwy Instagram. Byddai'n grêt petasech yn gallu dilyn tudalen Pwyllgor Pentra hefyd i chi gael gweld beth sy'n digwydd. Os nad ydach chi ar fbk mae croeso i chi gysylltu trwy e-bost a Pwyllgorpentradeiniolen@outlook.com neu gysylltu'n uniongyrchol drwy'r Eco efo Nesta Elliott.

Lyndsey Pleming (ar ran y Pwyllgor Pentra)

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
2il Mehefin, 9:30am - Cymun Bendigaid
9fed Mehefin, 9:30am - Cymun Bendigaid, 4yp - Gwasanaeth Bedydd
16eg Mehefin, 9:30am - Cymun Bendigaid
23ain Mehefin, 9:30am - Cymun Bendigaid
30ain Mehefin, 9:30am - Cymun Bendigaid, 5.00pm - Gwasanaeth Unedig Bro Eryri yn yr Institiwt, Llanrug
Hefyd, bydd gwasanaeth o Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00am



# DEINIOLEN

**Cynllun Arbed – Trigolion Ward Deiniolen**
Bydd asesiad cartrefi yr effeithwyd arnynt gan inswleiddio waliau allanol o dan gynllun Arbed, gyda'r nod o adnabod namau ar yr inswleiddiad a'u cywiro.

Mae'r Llywodraeth wedi ysgrifennu at y trigolion oedd wedi codi'r mater gyda swyddfa'r Blaid, ac rydym wedi eu hannog i gwblhau a dychwelyd yr holiadur i'r Llywodraeth, fel gellir edrych ar eu heiddo fel rhan o'r broses arolwg ac adfer hon.

**Ride Out - er cof am Howel**





Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.


TEYRNGED

## Gareth Lloyd Parry

Ar y deuddegfed o Ebrill eleni, daeth y newyddion trist am farwolaeth cyn bennaeth Ysgol Gwaun Gynfi, Gareth Lloyd Parry, ac yntau ond yn 72 mlwydd oed. Penodwyd ef i'r swydd ym 1996; a thros yr ugain mlynedd a ddilynodd cafodd Mr Parry ddylanwad cadarnhaol ar genedlaethau o blant Deiniolen a'r cyffiniau, gan osod gwerthoedd sy'n aros hyd heddiw.

Heb os nac oni bai, plant oedd yn bwysig iddo. Sicrhaodd fod plant Deiniolen yn derbyn yr addysg a'r gofal gorau. Ymhyfrydai yn llwyddiant pob plentyn, a byddai wrth ei fodd yn rhannu eu llwyddiant gydag ymwelwyr â'r Ysgol. Pan fyddwn yn ymweld ag ef yn ddiweddar, doedd dim yn well ganddo na chlywed hanesion am hynt a helynt y cyn ddisgyblion. Oedd; roedd plant Deiniolen yn dal yn bwysig iddo.

Credai fod yr addysg orau'n cychwyn wrth draed plentyn. Rhoddai bwyslais mawr ar ddysgu am hanes a diwylliant yr ardal leol. Gwnaeth yn sicr fod plant Deiniolen yn datblygu gwir falchder yn eu pentref a'u cymuned. Roedd Cymru'n bwysig iddo, ac roedd am i'r plant ddatblygu cariad a balchder at eu gwlad a'u hiaith. Roedd bri mawr ar ddathlu traddodiadau Cymru a Chymreig, gyda gwasanaethau Gŵyl Ddewi, Santes Dwynwen ac Owain Glyndŵr yn cael lle blaenllaw. Doedd dim yn well ganddo na gweld neuadd yr Ysgol yn llawn o blant yn eu crysau coch!

Roedd am ddangos i'r plant fod Cymry'n llwyddo ym mhob maes. Trefnodd ymweliadau lu gan enwogion o sawl maes; nifer ohonynt â chysylltiadau lleol. Ymweliadau ddaw i gof yw rhai Dafydd Iwan a Syr Dave Brailsford. Roedd Dafydd Iwan ei hun yn nodi ei fod wrth





**Merched y Wawr**
Cafwyd noson ddifyr iawn yn ein cyfarfod mis Ebrill pan gawsom groesawu Dr Gwyn Roberts, Fferm Pen Golwg, Deiniolen atom i sôn am ei waith gyda Thîm Achub Mynydd Llanberis. Diolch i Eirlys am fod yn barod i gael ei hachub.

Bydd cyfarfod olaf y tymor yn cael ei gynnal ar y 20fed o Fai pan gawn gyfle i wneud basgedi crog.



ei fodd o weld plant yn gwybod cymaint am hanes Cymru ac yn canu geiriau ei ganeuon! Ymysg ymwelwyr eraill oedd Elin Fflur, Angharad Tomos, Malcolm Allen a Trystan Ellis Morris, i enwi dim ond rhai!

Oedd, roedd Mr Parry am i blant werthfawrogi'r lleol; ond rhoddai iddynt hefyd gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliannau eraill. Cafwyd ymweliadau cyson gan bobl o Zimbabwe, a bu pobl o'r Aifft yn dysgu'r plant am draddodiadau cerddorol y wlad. Gosod sylfaen gadarn oedd yn bwysig iddo; ond rhoddodd i blant Deiniolen hefyd allwedd i agor drysau i'r dyfodol.

Roedd pob un plentyn yn cyfrif iddo. Un peth sy'n amlygu hynny oedd ymddangosiad y plant mewn noson o Ddawns yn Theatr Gwynedd. Rwyf yn ei gofio'n dweud, "Roedd pob un wan jac o blant Deiniolen ar y llwyfan heno!". Roedd wrth ei fodd hefyd gweld dau lond bws o rieni'n dod yno i'w gwylio! "Fasa'r lle ma'n wag heb Deiniolen!" meddai gyda gwên lydan.



Yn sicr, roedd ganddo weledigaeth glir yr oedd yn benderfynol o'i gwireddu. Llwyddodd i gael ei staff a chymuned yr Ysgol i rannu'r weledigaeth. Gosododd esiampl, annog, canmol, cefnogi ac, ia, dweud y drefn ambell waith! Roedd yn gefnogol tu hwnt i'w staff yn yr Ysgol gan ddylanwadu ar sawl gyrfa. Cymerai wir ddiddordeb yn ei staff a'u teuluoedd.

Braint fu cael bod yn gyd-weithiwr am bron i ugain mlynedd. Braint fwy oedd cael cyfle i ddod i adnabod y person y tu ôl i'r prifathro. Chwaraeon o bob math oedd ei ddiddordeb. Bu'n chwarae sawl camp yn ei ddydd, ond mae'n debyg mai pêl-droed oedd agosaf at ei galon.

Wyddwn i ddim hyd yn ddiweddar cymaint o ymroddiad a roddodd i'r gêm ar lawr gwlad. Roedd hefyd yn arddwr o fri. Hoffai gerddoriaeth hefyd: ychydig iawn a ŵyr ei fod yn un o ffans mwyaf y *Rolling Stones* ac yn mynd i'w gweld yn aml!

Roedd pob sgwrs â Gareth yn llawn hwyl, ac yn ddiddorol dros ben. Ac ni newidiodd hynny yn ystod y cyfnod diweddar, ac yntau wedi dioddef anhwylder a fyddai'n newid ei fywyd. Roedd pob sgwrs yn llawn hwyl a ffraethineb i'r pen diwethaf un.

Cynhaliwyd ei wasaneth angladdol ar lan Y Fenai, yn Eglwys Llanfairpwll. Roedd yr Eglwys yn llawn, ac roedd cannoedd y tu allan yn y fynwent. I mi, roedd hyn yn tystio i'r parch aruthrol oedd iddo a'r cariad a ddangoswyd ato gan bobl o bob maes. Ar ddiwedd y gwasanaeth, clywsom lais Mei Jones (Wali Tomos) yn canu 'Y Diwedd' o C'mon Midffîld. Mae'n gorffen gyda'r llinell, "A'i wneud o'n ffordd i". I mi, dyna wnaeth Gareth. Yn sicr, roedd ganddo ei ffordd a'i werthoedd ac fe lwyddodd i gyffwrdd bywydau cymaint o blant a phobl yn ystod ei fywyd.

Roedd yn hoff iawn o'r gân werin "Ar lan y Môr", ac wrth sefyll yn y fynwent yn gwrando ar deyrngedau arbennig gan ei deulu daeth pennill arall i'm meddwl.

Ar lan y Fenai safwn heddiw,
Yn talu'r deyrnged olaf i ti,
Un oedd mor ffyddlon, mor unigryw,
Cwsg mewn hedd ein cyfaill annwyl.

**Rhys ab Elwyn**

## CAEATHRO

**Capel**
Ar 2il Mehefin, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths, am 2.00pm. Bydd paned i ddilyn y gwasanaeth hwn. Ar 16eg Mehefin, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Idris Thomas, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Pob lwc**
Dymuniadau gorau i holl bobl ifanc y pentref a'r cyffiniau sy'n sefyll arholiadau dros yr wythnosau nesaf.

**Penblwydd arbennig**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Derwyn Roberts (Stad Glandwr) wrth iddo ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar - gobeithio i chi gael amser braf yn dathlu.

**Sioe Nefyn**
Llongyfarchiadau mawr i Delyth ac Owen Fretwell ar eu llwyddiant diweddar yn Sioe Nefyn. Bu'r ddau ohonynt yn brysur iawn yn paratoi eitemau celf a chrefft.






Da iawn Owen am ennill y wobr gyntaf ar gyfer oedran Meithrin i Flwyddyn 2 am greu eitem allan o Lego!




Enillodd Delyth y wobr gyntaf a'r bedwaredd wobr ar gyfer oedran Blynyddoedd 3–6 am wneud anifail allan o lysiau neu ffrwythau, a'r ail wobr am ddylunio model o fferm fach!



# GIGIAU, GWYLIAU A SIOEAU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | A | B | E | R | W | Y | D | Ff | S | G | Ŵ | Y | L | C | E | F | N | I | B |
| T | Ŵ | N | D | I | Ch | N | U | G | I | M | A | B | W | Ô | B | Dd | U | Ff | S |
| R | M | Y | Y | C | A | S | P | Ŵ | O | Y | S | I | A | D | U | H | E | G | V |
| O | E | F | L | V | S | I | E | Y | E | R | I | Ll | E | G | Y | L | Y | Ŵ | G |
| S | Ŵ | E | R | G | R | O | Ng | L | F | A | B | A | E | N | L | A | H | Y | L |
| C | T | N | A | Ŵ | O | E | G | F | R | U | Ŵ | T | R | B | S | D | O | L | R |
| L | D | E | V | Y | I | M | O | W | E | C | O | R | D | C | R | Ll | B | E | P |
| M | U | O | Ch | L | T | Ô | E | Y | N | T | Ff | E | L | N | V | E | T | L | A |
| A | F | I | D | Y | E | N | I | D | H | L | W | F | O | B | C | D | F | V | Dd |
| C | Y | S | T | G | Ll | K | S | C | I | Y | D | O | N | Y | M | H | E | I | NL |
| L | T | A | F | W | Y | L | T | A | N | M | R | W | A | F | E | O | I | S | Y |
| U | R | O | C | Y | Dd | Ô | L | E | O | I | A | D | C | Ng | R | I | Ll | P | H |
| B | E | Ch | W | Ll | A | T | L | R | L | B | N | Ch | L | S | T | L | D | O | N |
| L | Ch | U | P | I | R | M | T | N | C | L | Ô | A | Y | D | W | Ff | A | R | B |
| O | Y | M | U | A | Ŵ | S | Y | A | Y | Th | F | R | Ŵ | N | B | O | D | Th | S |
| D | R | T | Ff | I | C | R | O | R | M | E | C | D | G | W | Ll | Y | A | C | I |
| A | M | C | Ll | D | A | Ff | D | F | R | U | Y | Ŵ | A | V | R | E | Ll | A | N |
| I | E | N | R | W | L | E | G | O | U | Ŵ | R | Ng | S | E | T | I | Th | W | D |
| R | G | Ŵ | Y | L | Y | D | Y | N | G | W | Y | R | Dd | R | Ch | S | B | L | A |
| S | E | S | I | W | N | F | A | W | R | D | O | L | G | E | Ll | A | U | S | R |

Mae'r tywydd yn gwella ac yn codi awydd ar rywun i fynd allan i fwynhau. Tybed fuoch chi neu fyddwch chi'n mynd i un o'r digwyddiadau sy'n y chwilair yn ystod y misoedd nesaf?

**GŴYL CANOL DRE**
**GŴYL CEFNI**
**GŴYL ELVIS PORTHCAWL**
**GŴYL FWYD CAERNARFON**
**GŴYL GOMEDI MACHYNLLETH**
**SIOE FRENHINOL CYMRU**
**SIOE MÔN**
**SIOE NEFYN**
**TAFWYL**
**Y SIOE FAWR**
**GŴYL Y DYN GWYRDD**
**GŴYL Y GELLI**
**GŴYL Y GWYLLIAID**
**ROC Y DDÔL**
**SESIWN FAWR DOLGELLAU**

Mae un o'r digwyddiadau yn cael ei gynnwys ddwy waith yn y chwilair, ond o dan dau enw gwahanol.

Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Tybed fyddwch chi'n teithio yno i fwynhau?

O.N. Cofiwch mai **un** sgwâr sydd i bob llythyren ddwbl. Mwynhewch!

## CHWILAIR MIS MAI - GWLEDYDD ASIA

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | T | P | A | C | I | S | T | A | N | R | M | I | W | N |
| B | A | H | R | E | Dd | I | N | R | A | E | L | S | | C |
| R | L | I | U | S | B | A | D | I | T | A | C | Ff | O | A |
| U | C | L | A | L | A | P | E | N | S | I | A | C | N | D |
| N | Ng | I | H | I | P | A | B | O | I | S | M | W | A | E |
| E | L | P | O | N | D | N | E | W | N | E | B | S | I | T |
| I | M | I | R | A | N | C | Dd | E | A | N | O | N | S | W |
| Ph | A | N | L | O | M | A | N | S | H | O | D | E | Y | R |
| L | M | E | D | W | D | E | C | A | G | D | I | A | A | C |
| Ll | T | S | Y | R | I | A | D | R | F | N | A | B | L | I |
| S | Th | C | T | N | P | E | T | W | A | I | R | Y | A | S |
| A | R | M | E | N | I | A | E | D | B | M | T | I | M | D |
| E | L | E | Y | A | L | Ll | H | E | Ch | O | S | M | N | I |
| M | A | L | D | I | V | E | S | F | P | W | U | Ng | T | B |
| B | W | F | M | Y | N | A | M | A | R | Y | I | E | A | L |

AFGHANISTAN
ARMENIA
BRUNEI
CAMBODIA
INDONESIA
IRAN
MALAYSIA
MALDIVES
MYNAMA
NEPAL
OMAN
PACISTAN
PHILIPINES
RWSIA
SIAPAN
SYRIA
TSEINA
TWRCI

**Dyma'r atebion i'r cwestiynau ofynwyd yn rhifyn mis Ebrill:**
1. **Burma** oedd enw blaenorol Mynama? 2. **India** yw'r wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf yn AsIa. **(1,428,627,663)**
3. **Brunei** yw'r wlad sydd â'r boblogaeth leiaf yn AsIa. 4. Yr afon hiraf yn Asia a Tseina yw'r **Yangtze**.
5. Mae'r **Amazon** a'r **Nîl** yn fwy na'r Yangtze. 6. **Rwsia** yw'r wlad sy'n rhan o Ewrop ac Asia.







# Jenkin Morgan Griffiths (1932–2024)



Bu farw Jenkin Morgan Griffiths, cyn Lyfrgellydd Sir Gwynedd, yn 92 oed. Yn frodor o Benuwch yng nghefn gwlad Sir Aberteifi, roedd ei dad yn saer maen; ond fel dyn ifanc, dewisodd Jenkin gwrs tra gwahanol. Gosodwyd sylfeini ei yrfa pan ymunodd â staff ei wasanaeth llyfrgell lleol fel Cynorthwywr Llyfrgell dan lygad barcud ei bennaeth gweithgar, Alun R. Edwards. Gyda chefnogaeth ei fentor, roedd yn un o fyfyrwyr cyntaf Coleg Llyfrgellwyr Cymru, oedd newydd ei sefydlu ymn 1964. Wedi ychydig flynyddoedd yn ei sir enedigol fel Llyfrgellydd Plant ac Ysgolion, cafodd ddyrchafiad pan symudodd i ardal y llechfaen yn Sir Gaernarfon. Yno bu'n Gynorthwy-ydd i Lyfrgellydd Sir brwdfrydig arall, T. Elwyn Griffiths. Pan sefydlwyd sir 'newydd' Gwynedd ym 1974, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Lyfrgellydd Sir, ac yna ym 1981 fe'i dyrchafwyd yn Llyfrgellydd Sir.

Ymhlith y prosiectau cyntaf y bu'n eu goruchwylio fel Llyfrgellydd Sir oedd darparu'r Llyfrgell Gyhoeddus newydd i Gaernarfon a agorwyd ym 1982. Nid oedd y ffaith i'r adeilad hwnnw ennill gwobr genedlaethol am ei garegwaith yn gyd-ddigwyddiad. Roedd yn gefnogwr brwd o Wasanaethau Plant, ac yn arbennig o frwd dros hyrwyddo'r defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus ac ysgolion ar y cyd mewn ardaloedd gwledig. Yn ystod ei gyfnod o ddeng mlynedd fel Llyfrgellydd Sir, roedd yn eiriolwr brwd dros 'gyfrifiaduro' gwasanaethau llyfrgell, a sicrhaodd fod Gwynedd yn arloesi yn y maes. Roedd wrth ei fodd pan gynigodd y Gwasanaeth ei 'ficrogyfrifiaduron' cyntaf i'r cyhoedd – ddegawd cyn dechrau'r cynllunio ar gyfer 'Y Rhyngrwyd'. Bu'n aelod gweithgar o Gymdeithas Llyfrgelloedd Cymru, a chynrychiolodd Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru wrth gefnogi gwaith Cyngor Llyfrau Cymru ac yn arbennig felly yn ei ymdrechion i sicrhau digon o adnoddau Cymraeg ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus.

Wedi 33 o flynyddoedd o wasanaeth i lyfrgelloedd cyhoeddus, bu'n rhaid iddo ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd; a daeth yn eiriolwr cadarn dros waith Sefydliad Prydeinig y Galon. Roedd ffydd Gristnogol Jenkin yn gonglfaen i'w gymeriad, a bu'n Ysgrifennydd a Blaenor yng nghapel 'Cysegr' Bethel am flynyddoedd lawer. Cefnogodd Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru, ac roedd ei gyfraniad i'w gweithgareddau'n cynnwys darllen *Eco'r Wyddfa* ar gyfer cyhoeddiad sain. Bu hefyd yn cynrychioli'r Gymdeithas ar Gyngor Deillion Cymru, gan wasanaethu am gyfnod fel cyfarwyddwr ar ei bwrdd. Parhaodd â'i gefnogaeth i Gyngor Llyfrau Cymru trwy ymuno â'i 'Gyfeillion' a gwasanaethu fel Ysgrifennydd. Roedd hefyd yn aelod brwd o'r gymdeithas lenyddol leol.

Ychydig cyn iddo ymddeol, soniodd wrthyf ei fod yn synfyfyrio weithiau y dylai fod wedi dilyn llwybr ei dad i sicrhau gwaddol mwy parhaol, gan fod adeiladwaith saer maen yn para'n hirach nag ymdrechion llyfrgellydd. Eto i gyd, llwyddodd Jenkin i gario'r maen i'r wal mewn sawl maes yn ystod ei oes, a hynny trwy ei gyfraniad gwerthfawr i'w broffesiwn ac hefyd ei ymroddiad egwyddorol i'w gymuned. Bydd gwaddol Jenkin yn sicr o oroesi yng nghof cyn-gydweithwyr, ffrindiau a chyd-addolwyr, ond yn bennaf oll yng nghoffâd ei deulu. Mae ein meddyliau gyda'i wraig Glenys, a'i dri phlentyn – Siân, Aled a Dewi, a'u teuluoedd.

**THJ**

# Nodiadau Natur

Gan ein bod eisoes wedi trafod planhigion ac adar yn y ddau rifyn diwethaf, dyma benderfynu troi at greaduriaid nad ydynt efallai yn cael cymaint o sylw ym myd natur, sef y trychfilod!

**Chwilen sinamon (Corizus hyoscyami)**
"Rwy'n sicr y bydd rhai mwy gwybodus na mi yn gallu fy nghywiro, ond yn ôl y sôn mae hwn yn greadur digon prin i ni yma yng Nghymru. Rhywogaeth o chwilen planhigyn yw *Corizus hyoscyami*. Ni allaf ddarganfod enw cyffredin Cymraeg, ond trosiad o'r Saesneg fyddai chwilen sinamon.

Fe'i gwelir fel arfer yn ne Lloegr ond gwyddwn ei fod yn symud i gyfeiriad y gogledd. Wedi ymchwilio rhywfaint, ychydig iawn o achosion sydd wedi'u gweld yma yng Nghymru. Er ei fod yn hawdd ei adnabod gan ei liw beiddgar, gellir ei ddrysu hefo'r chwilen tân. Fodd bynnag mae'r chwilen tân yn ddi-flew, yn wahanol i'r byg sinamon sydd yn un o flew mân drosto. Gwelais yr enghraifft hwn yng ngwarchodfa Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales Llyn y Parc yng nghoed Niwbwrch". (*Geiriau a llun Harri Williams*)





**Chwilen ??? (*Gastrophysa viridula*)**
"Mae *Gastrophysa viridula* yn amrywio o ran hyd rhwng y rhywiau, gyda'r gwrywod yn 4mm a'r benywod yn 7mm. Yma mae gennym fenyw sydd â'i abdomen distyll yn drwm gyda wyau. Mae'r fenyw yn dodwy dros 1,000 o wyau, gan eu dodwy mewn clystyrau o 20 i 45 ar ochr isaf eu dail bwydo.

Mae'r ddau ryw yn wyrdd gyda sglein metelaidd. Yn dibynnu ar y golau, gall y lliw fod yn gyfuniad o wyrdd aur, glas, porffor, fioled, neu goch. Mae *Gastrophysa viridula* yn bwydo'n bennaf ar ddail tafol ac yn y Saesneg caiff ei alw'n *'green dock beetle'*. Nes i fethu darganfod enw Cymraeg, oes rhywun ag enw ar lafar i'r chwilod prydferth yma?" (*Geiriau a llun Harri Williams*)

Hoffwn ddiolch i Harri Williams, sy'n cyfrannu'n gyson i grwpiau gweplyfr (*facebook*) 'Llên Natur' a 'Galwad Cynnar' am roi caniatad i mi ddefnyddio'r isod yn yr *Eco*. Efallai eich bod wedi gwrando arno ambell i fore Sadwrn ar Radio Cymru fel gwestai ar 'Galwad Cynnar' efo Gerallt Pennant.

Cofiwch anfon i'r *Eco* os ydach chi'n ymwybodol o enw cyffredin i unrhyw un o'r creaduriaid lliwgar yma.

Diolch Harri am yr wybodaeth a'r lluniau bendigedig.

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlo**
A'r rhifyn yma ar fynd i'w wely, syfrdanwyd y pentref gan y newyddion am farwolaeth ddisymwth Elisabeth Williams, Stad Eryri, yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Mae ein cydymdeimlad dwysaf fel ardal â Iorwerth, Lowri, Bethan, Mared a'r teulu estynedig yn eu colled.

**Angladd**
Daeth tyrfa niferus i Gapel Cysegr ar gyfer angladd y diweddar John Maldwyn Jones, Stâd Tan-y-Buarth gynt. Dan arweiniad y Parchedigion Euron Hughes a Nerys Griffith, a theyrngedau gan ei blant, cafwyd gwasanaeth oedd yn adlewyrchu amrywiol ddoniau a chyfraniadau y gŵr poblogaidd yma, a osododd wreiddiau yn Neiniolen a Bethel.

**Diolch**
Dymuna Carys, Gerallt a Gareth, 2, Stad Rhôslan, gydnabod a gwerthfawrogi'r llu negeseuon o gydymdeimlad drwy sawl cyfrwng a dderbyniwyd ar golli Peter. Cyfranwyd swm parchus iawn o arian er cof, a phenderfyniad y teulu yw ei gyfrannu at goffrau Meddygfa Waunfawr.

Yr un yw diolch diffuant Glenys (Llwyn Eithin gynt) a'r teulu am bob arwydd o gydymdeimlad a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Jenkin yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i'r Parchg Marcus Wyn Robinson am arwain gwasanaeth teilwng iawn ddydd yr angladd. Hefyd, diolch am gyfraniad y Parchg Stephen Morgan, Penuwch. Gwerthfawrogir y cardiau niferus, y galwadau ffôn a'r rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at y BHF yng Nghymru. Diolch hefyd i'r rhai a deithiodd i lawr o'r Gogledd ddydd yr angladd. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Dymuna Llinos a theulu Fachell, Seion, gydnabod yr holl gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt o golli tad, taid a hen-daid annwyl iawn, y diweddar John Owain Griffith, Tŷ'n Rhos, Llangwnadl. Diolch arbennig i'r Parchg Euron Hughes am ei wasanaeth urddasol ddydd yr angladd. Cafwyd cyfraniadau ariannol hael er cof, a throsglwyddwyd yr arian tuag at waith Ambiwlans Awyr Cymru.

Hoffai Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a llu ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac ar ôl iddi ddychwelyd adref. Diolch o galon.

**Dymuniadau**
Gallwn yn swyddogol y mis yma longyfarch a chroesawu John Edward Jones (John Plisman), Stad Eryri i aelodaeth y clwb 90+. Llongyfarchiadau John, a gobeithio dy fod wedi cartrefu erbyn hyn yng ngofal staff Plas Pengwaith, Llanberis.

Yr un yw ein dymuniadau i Mary Evans, Stâd Bro Eglwys, sy'n dal yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ôl yma i Fethel ble rydym yn cydnabod ei chyfraniad mewn sawl cyfeiriad dros y blynyddoedd.

Bu Maud Williams, Deulyn, yn yr ysbyty hefyd am gyfnod, ond braf cofnodi ei bod hithau bellach gartref.

Dymuniadau gorau hefyd i'r rhai o'r ardal a fydd yn mentro draw i Meifod ar gyfer Eisteddfod yr Urdd dros y Sulgwyn.

**A oes diddordeb?**
Dros y blynyddoedd bu gan Ward Bethel ar bob lefel o Gynghorau Cymuned, Sirol, neu'r Senedd a San Steffan, draddodiad o ganrannau pleidleisio cymharol barchus, fel arfer dros 70%. Yn bersonol, teimlaf y dylsai pleidleisio ar unrhyw lefel fod yn orfodol. Ie, efallai gyda blwch 'neb o'r uchod' yn gynwysedig. Cefais dipyn o siom pan ês i bleidleisio yn yr Etholiad am Gomisiynwr yr Heddlu dros ranbarth Gogledd Cymru yn ddiweddar. Roedd yr Orsaf Bleidleisio'n agored o 7.00am hyd at 10.00pm, gyda thri swyddog yn gweinyddu. Mae hon yn swydd bwysig, ble mae gofyn ar y Comisiynydd i fewnlwytho teimladau'r etholwyr ar wahanol bolisiau yn ymwneud â gwaith yr Heddlu o fewn ein rhanbarth – lleol a threfol. Pan ês i bleidleisio am 7.00pm, roedd 50 wedi pleidleisio mewn ward gyda dros 1,000 o etholwyr – 5% o'r posibl. Mae'n siwr, fel pob blwyddyn arall, bydd cryn gwyno am wasanaeth yr Heddlu, ac eto ychydig iawn o ddiddordeb mae'n ymddangos oedd i ymwneud â'r broses. Neu, rhag ofn fy mod yn gwneud cam â llawer, a yw'r 'bleidlais bost' bellach yn fwy niferus, ac yn fwy adlewyrchol o ymateb etholwyr i'r broses?

**Bechdan Ciwcymbyr, Syr?**
Yn rhifyn y mis nesaf, rwy'n gobeithio cael llun arbennig yn y golofn. Erbyn hynny, bydd Cled a Susan (Post gynt) wedi ymlwybro i Lundain. Dim byd newydd yn hynny, meddech chi. Ond, draw i Balas Buckingham y bydd y ddau yn mynd. Maent wedi eu gwahodd i Barti Gardd yno, wedi i rywun roi eu henwau ymlaen fel cydnabyddiaeth am gyfnod hir o wasanaeth a roesant i ni fel cymuned ym

**Clwb Bro**
Daeth nifer dda i gyfarfod Mai, ac fe'u croesawyd gan Mary Wyn Jones, ein Llywydd. Dymunwyd gwellhad buan i Maud Williams a Mary Evans oedd yn yr ysbyty ar y pryd.

Hyfryd oedd cael croesawu Bob Morris, Penygroes, atom. Yn wreiddiol o ardal Llŷn, bu'n dysgu Hanes yn Rhuthun, ac yna'n darlithio yn adrannau Hanes Y Coleg Normal a Phrifysgol Bangor. Mae'n llais cyfarwydd ar y radio, ac yn hyddysg mewn hanes lleol a chenedlaethol.

Testun ei sgwrs oedd "Y Cymry Cudd – Ysbiwyr ac eraill yn yr Ail Ryfel Byd". Pwy feddyliai fod Cymry'n gweithio mewn sawl maes yn ystod y Rhyfel Byd? Bu merched yn gweithio mewn ffatrioedd arfau ac yn rhagofalu ar gyfer cyrchau o'r awyr.

Rydym yn gyfarwydd â'r gwaith o dorri codau'r Almaenwyr a wnaed yn Bletchley Park yn ystod y Rhyfel. Cafodd nifer o Gymry o'r maes mathemateg, peirianyddol ac ieithyddol eu recriwtio i weithio yno.

Roedd rhaid i bawb arwyddo'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol, a chytuno i beidio â sôn am eu gwaith wrth neb byth eto. Wedi'r rhyfel, dychwelodd y mwyafrif i'w swyddi blaenorol gan gadw eu rôl yn Bletchley Park yn gyfrinachol.

Difyr oedd clywed hanes Arthur Graham Owens, Pontardawe. Bu'n asiant dwbl. Roedd yn gweithio i MI5, tra'n ymddangos i'r asiantaeth gudd-wybodaeth yr Almaen fel un o'u hasiantau.

I orffen, cafwyd hanes William Glyndwr Michael (Y Dyn na fu Erioed), o Aberbargoed, a helpodd i gwtogi'r Rhyfel yn Ewrop. Aeth i Lundain i geisio dianc rhag y tlodi anhygoel yn ystod Dirwasgiad Mawr y 1930au. Darganfwyd corff Mr. Michael mewn warws yn King's Cross, Llundain.



Ym mis Ebrill 1943 defnyddiwyd ei gorff ar gyfer Ymgyrch Mincemeat, ymgyrch ffug fwyaf echrydus y gwrthdaro. Unwaith yn nwylo'r asiantau Charles Cholmondeley ac Ewen Montogu, dechreuodd y sgam o drosnewid corff Michael yn gorff yr Uwchgapten Dros-dro William Martin. Rhoddwyd bag wedi cadwyno am ei fraich. Roedd y bag yn cynnwys y cynlluniau ffug am y glanio o'r môr gan y Cynghreiriaid yn yr Eidal, gan nodi'r fangre anghywir ar gyfer y glanio. Gollyngwyd y corff o long er mwyn iddo lanio ar un o draethau Sbaen. Ar 30ain Ebrill 1943, daeth pysgotwr ar draws y swyddog Prydeinig y tybiwyd ei fod wedi boddi ger traeth Huelva, Sbaen.

Coeliodd cudd-wybodaeth filwrol yr Almaen y stori, a glaniodd copiau o lythyrau Martin a'r cynlluniau i lanio yn Groeg yn hytrach na Sicily ar ddesg Adolf Hitler. Twyllwyd yr Almaenwyr i adleoli catrawdau cyfan o filwyr o Sicily i wlad Groeg a'r Balconau.

Mae'n bosibl mai Glyndwr Michael yw arwr mwyaf anhebygol yr Ail Ryfel Byd. Wedi'r cyfan, ar ôl ei farwolaeth yn 34 oed fe helpodd i ddod â'r rhyfel yn Ewrop i ben fis yn gynnar, gan arbed miloedd o fywydau. Diolchwyd i Bob gan Richard Lloyd Jones am bnawn hynod ddiddorol. Diolch i Myfanwy Harper am baratoi'r baned. Edrychwn ymlaen at y wibdaith flynyddol y mis nesaf, gan ymweld â'r Ysgwrn. (Diolch i Lis Watkin, ein Hysgrifennydd gweithgar am yr adroddiadau misol trylwyr.)

Methel. Gwahoddiad haeddiannol iawn yn sicr. Edrychwn ymlaen at weld yr 'outfits', a thybed a fydd Cled a Susan yn barod i ddatgelu os cawsant eiliad neu ddau yn siarad hefo'r Brenin!

**Rhaghysbysiad**
"Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir…" Wel, gobeithio hynny, gan fod pwyllgor gweithgar Mish-mash wedi cyhoeddi rhaglen y gweithgareddau ar gyfer yr wythnos o 24ain Mehefin hyd 29ain Mehefin. Fe roddaf fraslun o'r gweithgareddau, ac fe fydd digon o hysbysebu gan y pwyllgor parthed tocynnau, cyfranwyr, lluniaeth ac ati. Diolch i'r pwyllgor o flaen llaw am gynllunio'r fath amrywiaeth o weithgareddau i bob oed.
24ain Mehefin: Gêm Bêl-droed. Cic Gyntaf 6.30pm
25ain Mehefin: Noson Disco Cylch – Bl. 2 ac yna Bl.3–Bl.6
26ain Mehefin: Noson y Rasus. Oedolion 5K. Plant 1 Milltir
27ain Mehefin: Bingo
28ain Mehefin: Noson Gomedi
29ain Mehefin: Diwrnod Hwyl Mish-mash a Gorymdaith

**Teithio**
Bu raid i Richard Lloyd Jones deithio'n bell am ei gadair ddiweddaraf. Dyfarnwyd ei awdl "Cysgodion" yn ymwneud â'r mewnlifiad i Lŷn yn gyntaf o'r 13 ymgeisydd. Y lleoliad oedd Llandudoch, ei gadair gyntaf yn Sir Benfro.

"I ddaear Llŷn hyrddia'r llif
yn gyfrwys o ddi-gyfrif;
mae'r giang yn gollwng angor
a'i lais mwy ar las y môr.
Pob *yacht* ddaw fel cardotyn
gyda'u llafn yn gwaedu Llŷn…."

**Clwb Bowlio Dan Do Bethel**
Dymuna'r aelodau ddiolch am y gefnogaeth leol, a chan aelodau timau eraill o'r gynghrair, am eu cefnogaeth i'r gystadleuaeth parau yn ddiweddar. Denwyd 11 pâr i gystadlu ar y diwrnod. Trosglwyddwyd yr elw o £300 tuag at Gronfa Ymchwil Clefyd Parkinson. Aeth tlws yr enillwyr i Sioned a Holly o glwb Trefor, a'r ail wobr i Llinos a Margaret o Fethel.



**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Mai yn Neuadd Goffa Bethel nos Fercher, 8fed Mai. Croesawyd yr aelodau gan Jen, ein Llywydd. Cyflwynwyd ein llongyfarchiadau i Sion Elwyn, mab Deilwen Hughes, un o'n haelodau, ar ei ddyweddïad â Miriam o Frynmawr, Pen Llŷn.



Dymunwyd wellhad buan i un o'n haelodau, Mary Evans, sydd wedi bod yn bur wael yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond yn falch iawn o gael cyhoeddi ei bod yn dechrau gwella erbyn hyn.

Dymunwyd pob lwc hefyd i'r tîm bowlio deg fyddai'n cymryd rhan mewn gêm yn ystod yr wythnos ddilynol.

Gohebiaeth: Bydd Liz Watkin, yn ei swydd fel Ysgrifennydd y Clwb Garddio, yn trefnu taith i weld gardd eiconig ar hen safle Neuadd Worsley, Salford, Manceinion.

Bydd y daith yn digwydd ar ddydd Sadwrn, 15fed Mehefin, a bydd bws wedi ei drefnu, i godi ym Methel am 9.20am.

Ein gwestai gwâdd y mis yma oedd Angharad Tomos. Mae hi'n gyfarwydd i ni i gyd fel awdur a llenor disglair, a'i gwaith yn cynnwys ei chyfres enwog iawn am Rwdlan a'i ffrindiau. Bu'n llwyddiannus fel enillydd y Goron yn Eisteddfodd yr Urdd ddwywaith, Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith, Gwobr Tir na-n-Og ddwywaith a Gwobr Mary Vaughan Jones yn 2009 am ei chyfraniad i lenyddiaeth plant.

Ei thestun yn ein cyfarfod oedd 'Silyn Roberts a'i wraig Mary'. Dywedodd

Angharad fod hanes y ddau yma wedi dod yn obsesiwn iddi; a dyna oedd canlyniad y nofel hyfryd honno 'Arlwy'r Sêr'. Rhannodd ei phortread o stori garu rhwng Silyn a

Mary a'u gwaith di-flino dros sosialaeth ac addysg y gweithwyr. Roedd iddi gysylltiad agos â'r ddau gan fod ei thaid, David Thomas, wedi ysgrifennu cofiant am Silyn.

Teg dweud fod y gynulleidfa wedi ei chyfareddu gan yr hanes a'i chyflwyniad. Diolchwyd iddi ar ran y gangen gan Deilwen Hughes.

Edrychwn ymlaen at ein trip diwedd tymor ar 12fed Mehefin, pryd y byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Forwrol Nefyn ac yn cael lluniaeth i ddilyn yn Caffi Ni.







**Adran yr Urdd**
Ar 10fed Ebrill, aeth criw ohonon i Stiwdio Aria yn Llangefni i weld sét Rownd a Rownd. Cafodd pawb hwyl yn crwydro o dŷ i dŷ, a chafwyd cwis bach ar y diwedd.

Diolch o galon i Carol am ein tywys o gwmpas.

Pob lwc i Lydia yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod. Mae Efa a Lydia hefyd yn aelodau o grŵp dawns Hudoliaeth a fydd yn cystadlu. Pob lwc iddyn nhw i gyd fel grŵp.

Y tro nesa, mi fyddwn ni'n cael noson o nofio yn y Ganolfan Hamdden ar 8fed Mai, sef nos Fercher. Gobeithiwn wedyn gael taith gerdded ym mis Mehefin, o gwmpas y Felinheli, i gloi tymor llwyddiannus.

Gobeithiwn gael pwyllgor o rieni at ei gilydd ym mis Medi i drefnu gweithgareddau ar gyfer y tymor newydd.







# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 26

Dyma hanes gath fawr goch a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw, ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.


*Mae'n debyg bod y dywediad 'scaredy-cat' yn eithaf cyfarwydd i'r mwyafrif ohonom, ond hyd y gwn i does dim dywediad tebyg yn y Gymraeg. Ond mae rhai pethau'n gwneud i gathod deimlo'n ofnus. I'ch cath mae ci yn ogleuo ac yn edrach fel ysglyfaethwr, sy'n codi ofn arnynt. Wrth gwrs mae pobl ac anifeiliaid yn teimlo'n ofnus ar adegau ond mae gan gathod synhwyrau clywed, gweld ac arogli sy'n eu galluogi i ymateb yn sydyn o gael eu dychryn.*

Tybed pa bethau sy'n codi ofn ar Bob?

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …

"Mae hi reit braf byw yn fan'ma efo'r deu-droediaid, er eu bod nhw'n diflannu weithiau. Dwi'm yn siŵr lle maen nhw'n mynd ond bydd rhai eraill yn dod i fy ngweld i, bryd hynny, i roi bwyd a mwythau i mi. Ond gan amlaf maen nhw yma efo fi, sy'n braf a dwi'n licio bod allan os ydy hi'n dywydd braf.

Mae'r deu-droediaid yn gwneud pethau nad ydw i'n eu hoffi weithiau. Mae o, er enghraifft, yn mynnu gwthio rwbath hynod o swnllyd hyd y gwair! Dydw i ddim yn hoffi'r sŵn o gwbl, ond mi ydw i'n gath ddewr ac yn eistedd ym mhendraw'r ardd yn ei wylio, gan gadw llwybr i ddianc os oes rhaid. Does gen i ddim syniad pam mae deu-droediaid yn hoffi torri gwair yn fyr.



Dydw i wir ddim yn hoffi sŵn uchel, yn enwedig sŵn uchel annisgwyl! Wnaeth y ddeu-droed fach ollwng rywbeth hirsgwar, caled ar lawr y diwrnod o'r blaen a fu bron i mi neidio allan o fy nghot ffwr! Heddiw mae yna sŵn uchel, er yn bell i ffwrdd, 'taranau' meddan nhw! Rhaid i mi gyfaddef, dwi reit ofnus. Fel cath dwi'n synhwyro bod gwynt a lot o law ar y ffordd a dydw i ddim yn hoffi'r un o'r ddau hynny! Dydy'r deu-droediaid ddim i'w gweld yn synhwyro bod storm ar y ffordd… Dwi'n neidio ar y bwrdd i ddangos fy mod i'n ofnus ac yn cael ffrae! Asiffeta dydyn nhw ddim bob amser yn deall cathod.

Yn ogystal â gwneud y gwair yn fyrrach maen nhw hefyd yn newid ogla pethau. Jest pan ydw i wedi trosglwyddo fy ogla hyfryd i i'r soffa, mae hi'n tynnu'r gorchudd ac yn rhoi un arall sy'n drewi o'u hoglau neis nhw yn ei lle. Pam ar wyneb y ddaear fasach chi'n gneud hynny? Yn ffodus dydy'r ogla afiach yna ddim yn para'n hir ac mi ydw i'n cael gorwedd yno'n gyfforddus ar ôl diwrnod prysur o edrach ar eu holau nhw yn yr ardd.



Mae'n rhaid i mi ddeud mod i'n dechrau arfer efo deu-droediaid eraill sy'n landio yma o bryd i'w gilydd. Mi landiodd dau ohonyn nhw yma, heb i mi na fy neu-droediaid i fod yn disgwyl gweld neb. Roedd hi wrthi'n plannu pethau yn y bocs hirsgwar sydd wrth y drws ffrynt, pan yn sydyn welis i'r ddeu-droed eithaf tal a'r un hen yn ymlwybro i fyny'r lon at y tŷ yn annisgwyl. Mae pobl ddiarth weithiau'n gallu fy ngwneud i'n ofnus, ond erbyn hyn dydyn nhw ddim yn fy nychryn i. A deud y gwir mae'r un hen yn ddigon tebyg i rywun fues i'n byw efo o'r blaen. Felly dwi'n mynd i hel mwythau efo hi a'r llall. Mae hi i weld yn hoffi hynny, digri ydy'r deu-droediaid yma de?

Weithiau mae dau deu-droed ifanc yn dod a'r bwystfil pedair-troed melyngoch efo nhw! Dwi jest ddim angen unrhyw greadur pedair-troed arall ar fy nhiriogaeth i, dim ots pa mor fawr neu fach ydy o. Maen nhw'n honni na fasa fo'n gneud dim i mi, ond dydach chi byth yn gwybod be wneith ffasiwn bethau. Pam fuasai'n neu-droediaid i angen cael unrhyw greadur arall heblaw fi yma dudwch? Ddylwn i fod yn ddigon i unrhyw un…

Ers pan ddois i yma i edrach ar ôl fy neu-droediaid, does dim llawer yn fy nychryn i. Un peth ydy clywed sŵn pobl yn dod i fyny'r llwybr at y tŷ! Rhaid i mi gyfaddef mod i'n rhedeg i mewn i'r tŷ bryd hynny, jest rhag ofn. Wedi'r cyfan dydw i ddim yn eu nabod nhw.

Weithiau pethau bach sy'n fy nychryn i, pethau na fasach chi'n disgwyl i gath fawr gringoch fod yn ofnus ohonynt. Gas gen i bêl fach sy'n gwneud sŵn fel cloch, dwi'n hoffi teganau tawel - mochyn coed, car bach mae'r deu-droediaid lleiaf wedi anghofio ei gadw, pluen, pry neu ddarn o bren o fy mocs toiled. Dwi wrth fy modd yn eu gweld yn sgrialu hyd y llawr o dan fy mhawennau.

Dydw i ddim yn hoffi'r llygoden fach giwt roddodd un ohonyn nhw i mi chwaith! Och a gwae! Roedd yn gwneud y sŵn mwyaf dieflig, chlywais i erioed ffasiwn beth! Er mawr gywilydd i mi roeddwn i ofn y peth bach hyll go-iawn. Ond chwarae teg, ar ôl iddyn nhw stopio chwerthin mi roddodd y ddeu-droed fach y peth anghynnes o'r golwg ac mi stopiodd wneud y gwichian erchyll! Jest gobeithio na fydd hi'n dod a fo allan eto.

A wyddoch chi be? Drwy bob dim, dwi'n hapus yma yng nghanol bro'r Eco."




CEIR CYMRU

Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451



Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein


Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Hanes Caernarfon ar Flaenau eich Bysedd

Caernarfon yw prif dref ein hardal ac mae'n byrlymu o hanes ddiddorol. Y ffordd newydd, hwylus i drosgwlyddo hanesion yw drwy osod codau 'QR' mewn safleoedd o ddiddordeb fel y gall ymwelwyr drosglwyddo'r hanes i'w ffôn clyfar. I'r perwyl hwn y mae Cymdeithas Ddinesig y Dre wedi gosod 43 coflechen gyda côd 'QR' i goffáu adeiladau o bwys hanesyddol ac unigolion blaenllaw. Yn ogystal mae 38 o godau 'QR' unigol wedi ei gosod gan gwmni 'History Points' mewn gwahanol leoliadau. Gallwch weld safleoedd yr holl wybodaeth ar fap wedi ei osod ar daflen sydd wedi ei dosbarthu o gwmpas bro'r Eco. Mae côd 'QR' ar y map sydd yn mynd i'ch galluogi i gael mynediad i'r holl godau 'QR' gan 'History Points' yng Nghaernarfon. Felly ewch i chwilio am eich copi rhad ac am ddim o'r daflen a fydd yn eich galluogi i gael mynediad at yr hanesion. Gallech ddilyn trywydd y placiau gyda'r map neu ddefnyddio eich ffôn clyfar o'ch cadiar esmwyth gartref!

**Mae copiau i'w cael mewn siopau o gwmpas bro Eco'r Wyddfa:- Yr 'Heights', Menter Fachwen, Spar yn Llanberis; Garej Beran; Y Caban, Brynrefail; Y Bedol, Bethel; Wavells, Co-Op, Post, Llanrug ac yn Garej Caeathro.**






# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r *Eco*, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn, ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr *Eco*.
Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis** - Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** - Yn y Ganolfan prynhawn dydd Iau, 2.00 - 4.00pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis** - Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, i fyny at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Mae'r grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00pm. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r Swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.

Oedfaon Mai, Mehefin a Gorffennaf:

26ain Mai, 2.00pm - Parch Anna Jane Evans
2il Mehefin, 10.00am - Oedfa
9fed Mehefin, 4.00pm - Parch Mererid Mair Williams
16eg Mehefin, 2.00pm - Parch Trebor Lewis
23ain Mehefin, 2.00pm - Parch Iwan LL Jones
30ain Mehefin, 2.00pm - Parch John Roberts
7fed Gorffennaf, 10.00am - Parch Huw Pritchard

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30am a 2:00pm o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gwasanaethau mis Mehefin:
2il Mehefin, 11.00am - Cymun Bendigaid
9fed Mehefin, 11.00am - Cymun Bendigaid
16eg Mehefin, 11.00am - Cymun Bendigaid
23ain Mehefin,, 8,00am - Cymun Bendigaid, 11.00am - Gwasanaeth Teulu

30ain Mehefin, 11.00am - Cymun Bendigaid, 5.00pm - Gwasanaeth Unedig Bro Eryri yn yr Institiwt, Llanrug

Dydd Sadwrn 1af Mehefin - 'Big Brekkie' Cymorth Cristnogol - Dewch draw i'r Eglwys am frecwast blasus rhwng 9:30am a 12:00pm, elw tuag at Cymorth Cristnogol.

## Cyflwyno iaith a threftadaeth i ymwelwyr hostelau




Mae gan ymwelwyr hostelau YHA (Youth Hostels Association) Eryri brofiad cyfoethocach fyth yn eu disgwyl, diolch i osod byrddau dehongli newydd yn YHA Pen y Pass, Llanberis, Rhyd-Ddu, Cwm Idwal, Conwy a Rowen. Wedi'i ariannu drwy Gronfa Cymunedau Eryri, mae'r byrddau yma yn cynnig cipolwg ar ddiwylliant, hanes, iaith, a bywyd gwyllt amrywiol yr ardal, gan gyfoethogi dealltwriaeth y rhai sy'n ymweld â'r ardal.

Mae'r byrddau'n darparu gwybodaeth werthfawr am y Gymraeg, gan gynnig cyfieithiadau o dermau allweddol y deuir ar eu traws yn gyffredin yn yr ardal. Mae'r fenter hon yn adlewyrchu ymrwymiad i hybu amrywiaeth ieithyddol a meithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg ymhlith ymwelwyr.

Yn ogystal â'i harwyddocâd diwylliannol, mae gan Eryri dirwedd amrywiol a gwyllt sy'n gyfoeth o fflora a ffawna unigryw. Mae'r byrddau dehongli yn amlygu pwysigrwydd ecolegol Parc Cenedlaethol Eryri, gan arddangos y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n ei alw'n gartref.

Mae gosod y byrddau dehongli yma yn cyd-fynd â chenhadaeth yr YHA o ddarparu profiadau cyfoethog i deithwyr wrth gefnogi cymunedau lleol. Boed yn cychwyn ar daith gerdded i fyny un o fynyddoedd Eryri neu'n mwynhau'r golygfeydd godidog, gall ymwelwyr ag Eryri ddyfnhau eu gwerthfawrogiad o'r dirwedd hynod hon, diolch i'r byrddau dehongli newydd yn hosteli YHA ar draws y rhanbarth. Mae'r byrddau hyn yn dyst i ymdrechion cydweithredol Cronfa Cymunedau Eryri a'r YHA wrth hyrwyddo addysg, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a stiwardiaeth amgylcheddol ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

# Sut i ddefnyddio cylchfa yn gywir


Mae cylchfannau newydd ar ffordd osgoi Bontnewydd sy'n profi'n beryglus iawn. Cafwyd nifer uchel iawn o ddamweiniau arnynt ond dim un rhy ddifrifol hyd yma. Rhai wedi colli eu ceir o'u difrodi ac eraill wedi eu hanafu'n ddifrifol ond dim yn angheuol, diolch byth, hyd yma.

Mae 'na bedwar bai mawr yn cael ei wneud gan lawer gormod o bobl.

1. Dewis y lôn anghywir drwy'r gylchfa
2. Peidio rhoi signal addas cyn cyrraedd ac yna ar y gylchfa
3. Peidio cymryd sylw digonol o bawb arall drwy ddefnyddio pob drych yn y car, yn enwedig y drych chwith
4. Meddwl mai ffordd i basio ceir eraill ydi'r ddwy lôn ar y gylchfa – na – ar y ffordd mae pasio nid ar gylchfa

Dyma, yn ôl rheolau'r ffordd fawr, ydi'r ffordd i ddewis y lôn gywir a phryd i roi signalau – (https://www.gov.uk/guidance/rheolau-r-ffordd-fawr/defnyddio-r-ffordd-159-i-203)

- Rhoi signal priodol. Amserwch eich signalau i osgoi drysu defnyddwyr eraill y ffordd
- mynd i mewn i'r lôn gywir cyn cyrraedd y gylchfa



**Mae'r llun uchod yn hollol glir, o'i astudio, i lawr i bryd i arwyddo**

Peidio defnyddio'r llwybr glas ydi'r bai mwyaf, e.e. mynd o Gaernarfon i Lanberis a defnyddio'r lôn tu mewn

Os oes yna fodur yn y lôn fewnol rhaid rhoi lle iddo ddod allan os yw'n arwyddo. Chi fydd ar fai o beidio gadael lle iddo. Felly, os yn y lôn allanol rhaid cadw llygad ar y lôn fewnol.

Yn y gorffennol roedd 'traw am draw' gan y cwmnïau yswiriant yn gyffredin ond erbyn heddiw gan gymaint y camerâu car mae pethau wedi newid yn llwyddiannus yn y llysoedd.

Felly cofiwch eich prawf gyrru o drefn pethau – drych, signal, symudiad.

## Gwynedd i arwain prosiect cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd

Bydd gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru yn cael eu trawsnewid o ganlyniad i system newydd sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei harwain gan Gyngor Gwynedd.

Bydd hyn yn golygu y bydd un system ar gael ynghyd ag ap i bori catalog llyfrau a llyfrau llafar, yn ogystal ag archebu neu adnewyddu eitemau.

Dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi:

"Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru o £900,000 i ariannu'r system a fydd yn cael ei chyflwyno i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn ogystal â dod â gwelliannau enfawr i ddefnyddwyr llyfrgelloedd, bydd hefyd yn cynnig arbedion cost oherwydd ei fod yn lleihau'r dyblygu sy'n gysylltiedig â rheoli gwahanol systemau llyfrgell ledled Cymru, ac yn caniatáu i lyfrgelloedd argymell llyfrau i ddefnyddwyr eu darllen ac yn y pen draw, rhannu stoc â'i gilydd yn fwy effeithlon."

Gan fod gofyniad i dendro am system newydd, penderfynodd cynghorau ledled Cymru gydweithio i gyflwyno'r system newydd yn cynnwys cynnal tîm datblygu sytstem canolog, a chytunodd Cyngor Gwynedd i weithredu fel Awdurdod Arweiniol ar y prosiect trawsnewidiol hwn.

Unwaith y bydd ar waith, bydd y system newydd yn galluogi gwasanaethau llyfrgell i gydweithio ar ddatblygiadau eraill yn y dyfodol, megis un cerdyn llyfrgell ar gyfer Cymru.

Bydd y system newydd yn dod i rym yn 2024.


Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

# Ysgol Waunfawr

**Llangrannog**
Bu 29 o blant Blwyddyn 5 a 6 yn Llangrannog yn ddiweddar. Er gwaethaf y gwynt a'r glaw, llwyddodd pob un ohonynt i gwblhau'r holl weithgareddau, a dysgu sgiliau newydd hefyd. Diolch i'r staff am eu gofal ohonynt yn ystod yr ymweliad.














# WAUNFAWR

**Profedigaeth**
Daeth ton o dristwch dros y pentre ar fore 25ain Ebrill wrth glywed y newyddion am farwolaeth annisgwyl John Gwynedd, Nant. Roedd John yn un o gymeriadau mwyaf poblogaidd y pentref, yn hoffus a siriol, yn barod i weld y doniol ym mhob sefyllfa, a'i chwerthiniad yn codi gwên ar bawb a'i clywai. Ond y tu ôl i'r hwyl a'r chwerthin, roedd John yn ddyn â chalon fawr, yn hynod o hael a charedig, yn drysorydd medrus, (ac anghonfensiynol ar adegau!) Bu'n gefnogol i gymaint o fudiadau ac achosion da yma yn Waunfawr a thu hwnt ar hyd y blynyddoedd, heb fynnu clod na sylw. Yn ogystal â hynny, roedd yn gymydog da a ffrind triw i lawer. Bydd yn gadael bwlch enfawr ar ei ôl.

Wrth gwrs, mae'r golled fwyaf i'w theimlo gan ei deulu, sef y



plant, Osian, Meilir a Heddus, eu partneriaid, a'r wyrion bach yr oedd gan John gymaint o feddwl ohonynt. Rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant iawn gyda chi i gyd yn eich colled.

**Rhedeg ras She Ultra Pen Llŷn**
Unwaith eto, mae Rhian, Gorwel y Môr, wedi bod yn cymryd rhan mewn ras i godi arian at elusen cancr. Llongyfarchiadau mawr i chdi Rhian, a diolch yn fawr i chdi am gytuno i roi'r hanes ar bapur ar gyfer yr Eco!

"Dydd Sadwrn, 20fed Ebrill 20fed, am 7 o'r gloch y bore, cychwynnodd y ras She Ultra o faes parcio Pwllheli. Yr her y tro hwn oedd rhedeg She Ultra, sef 31 milltir o amgylch Pen Llŷn gan orffen yn Abersoch. Roedd y ras yma'n casglu arian tuag at elusennau sydd yn helpu merched sy'n byw gyda cancr – ymgyrch i gasglu 1 miliwn o bunnoedd mewn 5 mlynadd. Roedd y cyffro a'r cynnwrf yn amlwg ben bore, ac yn well na dim roedd yr haul allan yn gwenu, diwrnod bendigedig i gymryd rhan. Roedd yn ddiwrnod gwych: cael rhedeg gyda ffrindiau, bwyta llond bol ym mhob gorsaf fwyd, a'r gefnogaeth drwyddi draw yn werth chweil. Yn wir, roedd yn ddiwrnod anhygoel. Llwyddo i orffen y ras mewn 7 awr a 40 munud. Braf oedd gweld merched o bob gallu ffitrwydd yn cymryd rhan; rhai yn cerdded ac eraill yn rhedeg – profiad bythgofiadwy!"

**Canolfan Waunfawr**
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Waunfawr nos Iau, 13eg Mehefin, am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan. Croeso cynnes i bawb.

Hoffem gydymdeimlo â theulu John Gwynedd yn eu colled drist a sydyn. Bu'n drysorydd i'r pwyllgor am nifer o flynyddoedd.

**Pop Up! Clwb Ieuenctid**
Bydd nifer o sesiynau 'Pop Up' yn cael eu cynnal yn y Ganolfan bob nos Fawrth o 6ed Mehefin ymlaen, rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch.



Bu plant Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â'r Cwt Llefrith yn Llangristiolus yn ddiweddar, fel rhan o'u hastudiaethau ar ffermio. Cawsant hefyd sgwrs ddifyr trwy gyfrwng Zoom â'r ffermwr o Lanfairfechan, Gareth Jones, am ei waith o ddydd i ddydd.




**Celf Yr Urdd**
Dyma enwau'r plant a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Gelf yn ddiweddar:
Llun 3D, Bl. 3 a 4: Macsen Hamer, 2il
Ffotograffiaeth, Bl. 2 ac iau: Llew Morgan, 3ydd
Ffotograffiaeth Du a Gwyn, Bl. 1 a 2: Math Morgan, 2il
Uwchgylchu, Bl. 2 ac iau: Math Morgan, 3ydd
Gemwaith, Bl. 2 ac iau: Nico Hamer, 2il
Gwaith 3D, Bl. 3 a 4: Macsen Hamer, 1af (Pob dymuniad da iddo yn y Genedlaethol)
Llun 2D, Bl. 3 a 4: Macsen Hamer, 2il

# Diolchiadau





Diolch i Nyrs Zoe, Nyrs Delyth a Dr Esyllt Llwyd am ymuno yn ein thema 'Pobl sydd yn help' yn ddiweddar. Yr oedd pawb wedi mwynhau'n fawr; ac ambell i ddarpar feddyg yn amlwg yn y dosbarth!



Diolch i Mr Gerallt Jones am ddod ag oen i ddosbarth Mynydd Grug fel rhan o'u hastudiaeth o fferm. Pawb wrth eu bodd yn rhoi mwythau i'r oen.



Diolch i Tilly a Caitlin Wroe am ddangos Daisy, y ceffyl, i'r Dosbarth Meithrin a Derbyn yn ddiweddar.

Diolch i Mr Billy Langton am gynnig ticedi pêl-droed Lerpwl i'w rhoi mewn raffl ar gyfer yr Ysgol. Bydd pob ceiniog yn cael ei defnyddio i brynu offer chwaraeon/awyr agored.

Diolch hefyd am bob cefnogaeth ar gyfer y Cyngerdd o eitemau Eisteddfod er mwyn codi arian tuag at fws Llangrannog.

Diolch am bob nodyn a gair o gefnogaeth yn ystod arolygiad Estyn yn ddiweddar. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi fis Mehefin.

# Holi Hwn a Holi Hon

**Mae Caryl Rees yn byw ym Mhenisarwaun, mae hi'n gyfrifydd ac yn fam i ddau o blant bach. Caryl yw gohebydd *Eco'r Wyddfa* ym Mhenisarwaun, felly cofiwch gysylltu â hi os oes gennych newyddion am y pentref (manylion cyswllt ar dudalen 2).**



**1. Ble ydach chi'n byw ac o ble ydach chi'n dod yn wreiddiol?**
Dwi'n byw ym Mhenisarwaun, ond yn wreiddiol o Pentrefoelas.

**2. Hoff le yn y fro, a pham?**
Dwi wrth fy modd yn crwydro Chwarel Dinorwig – mae 'na rywbeth newydd i'w weld bob tro, ac mae'r golygfaoedd yn anhygoel dio'm ots be 'di'r tywydd.

**3. Eich hoff air Cymraeg?**
Bendigedig.

**4. Be sy'n eich cadw'n brysur?**
Mae gen i ddau o blant bach bywiog – merch dair oed a bachgen bach chwe mis. Mae gofalu am y ddau a bod yn wasanaeth tacsi i'r holl weithgareddau yn waith llawn amser, heb sôn am wneud yn siŵr bod digon o 'snacs' ar gael! (Taswn i'n cael £1 bob tro dwi'n clywed 'snac plis', byswn yn ddynes gyfoethog iawn...!)

Ar ben hynny dwi'n gweithio fel cyfrifydd yn helpu unigolion a busnesau lleol.

**5. Be sy'n eich gwylltio?**
Pobol heb blant yn parcio mewn llefydd parcio rhiant a phlentyn – mae'n mynd dan fy nghroen i!

**6. Be sy'n eich gwneud yn hapus?**
Fel sawl un arall dwi'n siŵr, mae diwrnod braf o wanwyn yn llenwi fy nghalon a paned tu allan yn gwrando ar yr adar bach yn canu. Dwi hefyd yn hoff iawn o grwydro hefo fy nheulu – boed i lan môr (mae Dinas Dinlle a Porthor yn ddau ffefryn), fyny'r mynyddoedd neu treulio amser ar Lyn Padarn ar y *paddleboard*.

**7. Oes gennych chi uchelgais i'r dyfodol, i chi eich hun neu i'r fro?**
Uchelgais bersonol ydi i gerdded mynyddoedd y 'Welsh 3000s', sef pymtheg mynydd uchaf Cymru. Dwi wedi cwblhau llond llaw ohonynt a'r Carneddi sydd nesaf ar y rhestr i'w concro.

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Croesawyd pawb i gyfarfod mis Ebrill gan ein llywydd Pat Jones ac aethpwyd ymlaen i ddarllen Llythyr y Mis. Roedd noson Bingo wedi ei threfnu ar y thema 'Blodau'. Gwerthfawrogwyd yr holl roddion gan yr aelodau cysylltiedig â'r thema tuag at y gwobrau. Nicola oedd yn gyfrifol am y gweithgaredd a threuliwyd noson hwyliog gyda nifer dda o'r aelodau yn ennill gwobr.

Edrychir ymlaen at ein cyfarfod nesaf pryd yr arddangosir gosod blodau mewn basgedi.

Yn ystod mis Mai gobeithir manteisio ar weithdai crefftau dan nawdd Ffederasiwn Sefydliad y Merched dan ofal Pat Jones, Anita Long ac Alison Richmond yn y Ganolfan, Llanberis.

## CEUNANT

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at rai o drigolion yr ardal sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.



# Un funud fach ...

## RHAEADRAU

Dwi wedi sôn am y to unwaith o'r blaen. Ond go brin fod rhaid ymddiheuro am wneud hynny eto gan fod deng mlynedd ar hugain ers i'r golofn hon gyfeirio ato ym mis Mai 1994. Ar y pryd, roedd "yn fwy na'r un to arall yn Ewrop, ac yn gallu symud hyd at bedair modfedd mewn gwynt cryf". Mae'n siŵr nad yw'r gyntaf o'r ddwy ffaith yn wir o hyd gan fod sawl to mwy wedi ei godi ers hynny. Ac am yr ail: mae'n beryg bod y to hwn erbyn hyn yn symud fodfedd yn fwy mewn gwynt cryf nag a fwriadwyd wrth ei godi!

Mae'r hen do'n dangos ei oed, ac o bosib nad oes hir oes iddo gan fod sôn am adnewyddu'r holl le. A'r arwydd diweddaraf o'r angen am hynny ydi'r ffaith fod y to'n gollwng dŵr yn ddychrynllyd. Nid diferyn neu ddau ond rhaeadrau o ddŵr sy'n llifo trwyddo dros seddi cochion Old Trafford gan hanner boddi ymylon y cae chwarae, fel a ddigwyddodd ar ddiwedd un gêm yn ddiweddar. Beth bynnag a benderfynir o ran dyfodol y stadiwm, bydd rhaid rhoi sylw i'r to dros yr haf cyn dechrau'r tymor nesaf. Un ai hynny, neu obeithio am dywydd sych a dim glaw bob tro y bydd gêm yn y stadiwm!

Nid gobeithio am dywydd sych a wnâi Williams. I'r gwrthwyneb yn hollol. Roedd yr emynydd o Bantycelyn wedi hen flino ar y sychder a'r diffyg tyfiant, ac yn hiraethu a gweddïo am law:

Pam y caiff bwystfilod rheibus
dorri'r egin mân i lawr?
Pam caiff blodau peraidd, ieuainc
fethu gan y sychder mawr?
Dere â'r cawodydd hyfryd
sy'n cynyddu'r egin grawn,
cawod hyfryd yn y bore
ac un arall y prynhawn.

Yr un yw ei gân mewn emyn arall:

O tyred, Arglwydd mawr,
dihidla o'r nef i lawr
gawodydd pur,
fel byddo'r egin grawn,
foreddydd a phrynhawn,
yn tarddu'n beraidd iawn
o'r anial dir.

A ninnau wedi cael gaeaf hir a gwlyb eleni, mor rhyfedd oedd clywed rhai'n dweud – wedi ychydig ddyddiau'n unig o dywydd braf ddechrau Mai – bod 'angen glaw'. Ond rhwng y gwynt a'r gwres, mi sychodd y tir yn gyflym iawn mae'n debyg. Nid dyddiau ond blynyddoedd o sychder ysbrydol a gafwyd yng Nghymru bellach. Mae ein gwlad, a ninnau gyda hi, i raddau helaeth iawn yn sych a chaled a difywyd. Mor barod yw llawer ohonom i ddweud bod 'angen glaw'. Mor barod i gydnabod hyd yn oed mai Duw yn unig all roi'r cawodydd a fydd yn bywhau ei bobl ac yn dod â thyfiant i'w waith. Ond mater arall yw canu'n weddigar gyda Phantycelyn ar i Dduw roi'r cawodydd hyfryd a phur, fore a phrynhawn. Fentrwn ni wneud hynny? Fynnwn ni weddïo'n ddyfal nid am gawodydd ysgafn ond am raeadrau nerthol o fendith y nefoedd? A feiddiwn ni ddychmygu'r tyfiant da a ddeuai yn eu sgil?

**JOHN PRITCHARD**

# Ysgol Brynrefail

**Gwobr Efydd ac Arian Dug Caeredin 2024**
Bu criw gwydn o ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11 yn ymarfer at eu halldeithiau efydd ac arian ac yna'n cael eu hasesu ar yr alldeithiau terfynol ym mis Ebrill mewn tywydd gwlyb ac oer!

Ar y diwrnod cyntaf fe wnaeth disgyblion blwyddyn 11 – criw'r wobr arian – gerdded o orsaf Drên Rhyd Ddu i Nant Gwynant gan aros mewn gwersyllfa yno. Yna ar yr ail ddiwrnod cerddodd y criw o Nant Gwynant i Nantlle gan aros yno dros nos. Ar y trydydd diwrnod buont yn cerdded o Nantlle i Lanwnda a dim ond ymarfer oedd hyn!

Fel rhan o'r asesiad alldaith terfynol cerddodd yr un criw sef: Fflur Jones, Elin Dafydd, Cadi Owen, Menina Pattinson, Harri Spencer, Ioan Powell, Josh Ratchford a Toby Thomas o Ddolwyddelan i Gapel Curig lle buont yn aros mewn gwersyllfa dros nos. Y bore canlynol fe wnaethant gerdded o gwmpas Llyn Crafnant a Geirionnydd cyn aros mewn gwersyllfa. Yna, ar y diwrnod olaf cerddodd y criw o Gapel Curig i Lanrwst. Mae'n dipyn o gamp ennill Gwobr Arian Dug Caeredin fel mae'r criw yma wedi ei wneud. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw!

Tra bod disgyblion blwyddyn 11 wedi bod yn llwyddiannus yn ennill y wobr arian, mynd am achrediad Gwobr Efydd Dug Caeredin yr oedd criw o flwyddyn 10 sef, Charlotte Darley, Hannah Fitzmmons, Hannah Brotheridge, Emily Hastings, Olwen Baines, Jonas Fowler, Wil Ratchford, Deri Hockley a Morgan Rowlands. Yng nghanol Ebrill fe aethant ar alldaith gan gychwyn yn Abergwyngregyn, aros dros nos mewn gwersyll a chyrraedd Llanberis erbyn dechrau'r pnawn y diwrnod canlynol. Llongyfarchiadau mawr i chithau hefyd ar eich llwyddiant a diolch o galon i Ffion Williams ein Gweithiwr Ieuenctid yma yn Ysgol Brynrefail am ei gwaith caled gyda'r bobl ifanc ac yn trefnu'r alldeithiau a'r achrediad.















**Cystadleuaeth Fathemateg Genedlaethol i flwyddyn 8** Llongyfarchiadau mawr i Zsofia Incze, Josh Watt, Daniel Thomas ac Elliot Martin oedd ymysg y rhai a ddaeth i'r brig mewn cystadleuaeth mathemateg i flwyddyn 8. Mae'r gystadleuaeth flynyddol yn cael ei threfnu gan Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol, gyda'r seremoni wobrwyo yn cael ei chynnal yn Eisteddfod yr Urdd. Camp ardderchog gan y pedwar, gyda mwy na 1,000 o ddisgyblion dros Gymru wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth eleni. Gwych iawn!



**Siarad ar Radio Cymru am yr arholiadau TGAU**
Dyma ran o erthygl (oedd yn sôn am ddwy o'n disgyblion ni ymysg eraill) a gyhoeddwyd ar BBC Cymru Fyw ym mis Mai:

Mae miloedd o ddisgyblion yn paratoi ar gyfer dechrau arholiadau'r haf ac am y tro cyntaf ers 2019 does yna ddim mesurau arbennig i adlewyrchu effaith y pandemig.

Yn eu plith mae Cadi a Cadi o Ysgol Brynrefail – dwy ffrind gyda'r un enw sy'n gwneud sawl arholiad eleni cyn gwneud mwy o bapurau TGAU flwyddyn nesaf. Mae Cadi, 14, eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith cwrs Saesneg, a nawr yn adolygu ar gyfer yr arholiadau.

"Dwi'n sgwennu nodiadau a wedyn sbio drostyn nhw, darllan drostyn nhw ac ella na'i roid o ar bapur eto i drio cofio nhw neu wna i sgwennu nhw lawr a sbio drostyn nhw mewn dipyn o amsar wedyn."

I ymlacio mae'n "gwrando ar fiwsig, neu mynd â'r ci am dro neu siarad efo'r teulu i gael meddwl fi o'r arholiadau".



Mae'n teimlo'n "nerfus" a "just isio cael o drosodd".

Hefyd yn ddisgybl blwyddyn 10, mae Cadi, 15, wedi gwneud arholiadau ffug a "rhai ohonyn nhw'n grêt, ond rhai ddim mor dda.

"Dwi efo busnas gneud clust-dlysau. Felly dwi'n licio gneud rheina i ymlacio!

"Ond hefyd dwi'n licio chwarae pêl-droed a dwi'n licio mynd am dro hefo ffrindiau."

Mae'n hyderus mewn rhai pynciau ond yn fwy pryderus am ffiseg, "ond wna i drio ngora achos dyna'r peth gora' ti'n gallu wneud".

Pob lwc i'r ddwy Cadi a phawb arall sy'n sefyll eu harholiadau TGAU, AS a Safon Uwch o hyn hyd ddiwedd Mehefin.

# Ysgol Llanrug

Dyma rai digwyddiadau o'r mis diwethaf yn Ysgol Llanrug.






**Blas ar weithgareddau**
Mae plant Ysgol Llanrug yn cael profiadau amrywiol a gwerthfawr iawn. Mae'r lluniau hyn yn rhoi syniad o rai o'r profiadau a gafwyd yn ystod y mis diwethaf.






**Madi**
Mae'r Ysgol wedi bod yn cefnogi hyfforddiant Madi, y ci ysgol. Mae hi bellach wedi cwblhau'r rhaglen sylfaenol ac yn gi ysgol go iawn! Mae hi wrth ei bodd yn dod i'r ysgol i weithio hefo'r plant bob dydd.



**Ribidirew**
Cafodd plant blwyddyn 1 a 2 y cyfle i fynd i Pontio i weld sioe 'Y Ribidirew Olaf'. Un o hoff raglenni'r plant ydy *Deian a Loli*, a daeth eu stori'n fyw yn Pontio. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad ac yn edrych ymlaen at ddechrau'r gyfres newydd.










**Taith bentref gydag Anti Gwawr**
Bu dosbarth Yr Aran, Y Garn a'r Glyder am dro o amgylch y pentref hefo Anti Gwawr. Rydan ni wedi casglu llawer o wybodaeth am sut mae Llanrug wedi newid dros y blynyddoedd. Diolch enfawr i Anti Gwawr.

## LLANRUG

**Capel y Rhos**
Oedfaon mis Mehefin:
2il Mehefin – Y Barch. Nerys Griffiths, ein gweinidog
9fed Mehefin – Parch Gwyndaf Jones
16eg Mehefin – I'w drefnu
23ain Mehefin – Y Gweinidog
30ain Mehefin – Mr Richard Parry Jones

**Profedigaeth**
Rydym yn meddwl yn annwyl iawn am Mrs Doris Evans, 4 Ffordd Glanffynnon sydd wedi colli ei chwaer Vera, oedd yn byw ar Ynys Manaw. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf â chwi yn eich profedigaeth.


**Hafan Elan**
Unwaith eto, cawsom gyngerdd Tonic ardderchog yn Galeri Caernarfon yng nghwmni Gwenan Gibbard. Yn ei dull hamddenol ac annwyl, fe gyflwynodd amrywiaeth o gerddoriaeth gwerin a cherdd dant. Cyn mynd yno fe gawsom wledd yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Braf oedd cael Elin o Lanberis yn gweini arnom, a diolch eto i Wendy'r gogyddes a Steven gyrrwr y bws. Diolch arbennig wrth gwrs i Elizabeth am drefnu fel arfer.

I ddathlu Calan Mai, cawsom wledd flasus yn y Ganolfan wedi ei pharatoi gan Beverley y Warden a'i mam Cath. Unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau'r cinio yn fawr.

**Diolch**
Hoffai Anwen Owen, Bryn Moelyn ddiolch i gymdogion a ffrindiau am bob cymwynas, galwadau a dymuniadau da yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty ac ers dod adref. Mae pawb wedi bod yn garedig dros ben ac rydym yn falch o glywed ei bod yn parhau i wella a chryfhau.

Dymuna Elizabeth a Ronald Pleming, Cartrefle, Bryn Moelyn ddiolch yn ddiffuant iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur genedigaeth eu hwyres fach, Eiri Grug ar benwythnos y Pasg. Yn yr un modd, hoffai Mari ac Aled, Ffordd Eryri, Caernarfon, rhieni Eiri Grug ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig tuag atynt pan anwyd eu merch fach.

**Pen-blwydd arbennig**
Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau a chyfarchion pen-blwydd arbennig i Dr Esyllt Llwyd sydd wedi dathlu'r hanner cant yn ystod mis Mai, a Bedwyr Evans, Stad Glanffynnon oedd hefyd yn hanner cant ddechrau Mai. Gobeithio i chi fwynhau y dathlu!





Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

01286 672898


Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# Cofio'r Gwrhydri; Cofio'r marwolaethau; a Chofio "Ddistadl Werinos y Silicosis"

Yn ôl *Canrif y Chwarelwr* gan Emyr Jones, 18fed Mehefin 1874 (150 mlynedd yn ôl), oedd y Dydd Gosod pwysig, pan roddwyd y dewis i chwarelwyr Dinorwig rhwng yr Undeb a'u gwaith. Dros y dyddiau dilynol, dewisiodd 2,200 o chwarelwyr yr Undeb tra dewisodd 11 i'r gwrthwyneb. Siawns bod hwn yn un o'r dyddia' pwysicaf yn hanes yr ardal?

Ddydd Sul, 23ain Mehefin eleni (y dydd cyfleus agosaf), am 3.00pm ger y Cleddyf – neu Llafn y Cewri, a rhoi ei enw cywir iddo – ar lan Llyn Padarn, bydd grŵp Wyneplyfr (*Facebook*) "Eryri Wen" yn eich gwahodd i goffau'r dydd hanesyddol hwn trwy ganu emynau'r chwarelwyr, sef yr emynau a oedd ynghlwm wrth y cloadau allan a'r streiciau. Dyma'r emynau:

1. Gwaed y Groes (Tôn: Bryn Calfaria)
2. O Arglwydd Dduw Rhagluniaeth (Tôn: Babel)
3. Duw Mawr y Rhyfeddodau Maith (Tôn: Huddersfield)
4. Gwelaf Graig a'm deil i fyny (Tôn: Sant Garmon)
5. O Fryniau Caersalem

Bob yn ail â'r canu, darllenir o awdl Lisi Jones, Y Fron, "Y Chwarelwr". Siawns mai hon oedd y deyrnged orau erioed i'r chwarelwyr yn ein llenyddiaeth? Mae'n disgrifio rybelwr ifanc ar gychwyn ei waith; gofal ei fam amdano; lladd ei dad a'r canlyniad:

"Mae'r aelwyd yn cymylu – oer y byd
A rhai bach i'w maethu
Y tylwyth heb benteulu –
Y tad o dan gaead du

Da ŵr a pharod i'w waith – yn ei fedd
A gweddw fam dan artaith;
Nerthu a hybu'i gobaith
Wna'i serch at deulu o saith"

Yna disgrifiad y mab yn dychwelyd fel rybelwr:

"Rol dyrnod drom a siomiant
Yn ifanc fel oen ufudd
I'r chwarel â'r rybelwr
I hela, begera am gerryg
Ac ar ei hyntoedd gwybu law grintach
A siom yn yr ymchwil siawns;
Siom yn y clwt sâl
Diraen a gwniad ar ei hyd,
A hwn o'i naddu'n chwalu'n ulw."

Mae'n mynd ymlaen i ddisgrifio'r creigiwr:

"Y gŵr cyhyrog pencampwr clogwyn
A esgyn yn heini'i osgo
I'w grefft ar ystlys y graig;

Ar rimyn uwch dibyn, â'i ebill
Hulia dwll i'r pylor
Hen grefft gywrain y graig."

Yna yr holltwr:

"A daw i'w gweled yr holltwr wedyn
Llunia'r tewder ar gyfer y gofyn;
Adnebydd feflau, rhychau a chrychyn
Hollta'r nwydd afrwydd fel dalen llyfryn."

Ac yna'r disgrifiad o Glefyd y Llwch:

"Ddistadl werinos y silicosis,
A'u cais i anghofio'u cŵyn
Yn rhoi ystyr i'w troeon trwstan
Yn dirymu undonnog drymwaith
Di-ffrwyn eu tafodau ffraeth
Wrth ddyfal ysmalio
A gwamalu, a'r llwch yn gymylau,
Yn grebach afiach ar ysgyfaint."

"A hwy yn ebyrth hen wybod
Yn wael a hen yn ganol oed."

Bydd croeso i eraill gymeryd rhan gyda gair bach neu bennill trwy ffonio 07718982732 (Eilian) neu 07500016235 (Elfyn).

Bydd Arfon Wyn (y Moniars) yno i'n helpu gyda chân neu ddwy a gair am ei deulu yn y Chwarel. Gobeithiwn y bydd rhai aelodau o Gôr Meibion Dyffryn Peris yno i'n helpu hefo'r canu hefyd.

Byddwn yno:
1. I gofio gwrhydri'r chwarelwyr yn y Cau Allan;

2. I gofio'r 400 a mwy a laddwyd yn y Chwarel;

3 I fynnu coffa da iddynt trwy i'r awdurdodau (Cyngor Gwynedd, Llechi Cymru a'r Pwyllgor Safle Treftadaeth Byd UNESCO) gymryd camau i ddileu'r sarhad o du'r dringwyr sy'n ail-enwi rhannau o'r Chwarel ag enwau gwirion Saesneg.

**Eilian Williams**

# Y Dymp

Tydi o'n beth rhyfedd fel y bydd ambell ddywediad neu ddigwyddiad hollol ddiniwed yn cael ei gamddeall pan fydd rhywun yn ceisio esbonio rhywbeth neu'i gilydd i rywun arall.

Lle poblogaidd gan blant pentref Waunfawr fynd i chwarae ers stalwm oedd llecyn o dir o'r enw Gerddi Bach. Dyna'r enw swyddogol! Ond fel 'Y Dymp' y'i hadwaenid bob amser, gan fod tomen sbwriel fechan yn arfer bod ar y safle. Yno y byddai'r trigolion yn cael gwared â gweddillion fel gwastraff gardd a rwbel. Ar wahân i le chwarae criced a phêl-droed, roedd 'Y Dymp' hefyd yn faes parcio hwylus lle byddai trigolion tai cyngor Dôl Erddi ac Ael-y-Bryn yn gadael eu ceir dros nos.

Un noson braf o Awst oedd hi, a chriw o lafnau'r pentref wedi hel ar y pafin o flaen siop y Post, pan arafodd Jaguar mawr sgleiniog yn eu hymyl. Roedd y gyrrwr angen rhywle i barcio'i gar, ac mewn llais awdurdodol gwaeddodd yn haerllug trwy'r ffenest hanner agored ar y criw, *"Hey you lot! Where would be the best place around here that's safe and secure to leave my Jag?"*

Ymhlith y criw hwyliog ar y pafin roedd Dafydd Beech, yr addfwynaf a'r mwyaf parod ei gymwynas i bawb. Aeth Dafydd at y gyrrwr i'w gynghori, ac meddai wrtho gan bwyntio at Gerddi Bach, *"If I were you, I'd take your car to the dump!"* O glywed ei gymwynaswr yn awgrymu iddo fynd â'i Jaguar moethus i beth a dybiaid ef oedd yn domen sbwriel, aeth y gyrrwr yn gandryll; ac meddai, gan ysgyrnygu ei ddannedd, *"Listen here, you cheeky little sod, I'll take YOU to the dump if you're not careful, and bury you underneath all the rubbish!"*

O weld y gyrrwr yn colli ei dymer, dechreuodd y llafnau ar y pafin guro eu dwylo a gweiddi "Hwre", a'r bonwr piwis o ganlyniad yn bygwth dod o'r car *"to sort out the bloody lot of you!"* Gyda'r llafnau'n dal i'w wawdio, roedd y gyrrwr wedi colli pob rheolaeth, ac yn ei wylltineb daeth allan o'r car gan dorchi ei lewys *"to teach you all a damn good lesson!"* Ond pan welodd y gwron glew'r talaf a'r cryfaf o'r llafnau'n sythu'n gawraidd o'i flaen, tynnu ei gyrn ato wnaeth y cachgi a chilio'n nôl i ddiogelwch y Jaguar. Yna, yn sŵn sgrech yr olwynion yn sgrialu, a gwaedd rhywbeth am *"load of idiots!"* gwibiodd y Jaguar moethus lawr yr allt i gyfeiriad Pont Cyrnant, cyn diflannu o'r golwg yn y pellter.

Meddai Dafydd druan wedyn: "Cwbwl wnês i oedd trio helpu'r boi, a dyma fo'n mynd yn blincin boncyrs!"

Does raid dweud na chlywodd Dafydd Beech, y cymwynaswr trugarog, ddiwedd ar *'Take your car to the dump!'* am hir wedi hynny. Ond beth am y gyrrwr piwis? Tybed gafodd o rywle *'safe and secure'* i barcio'i Jaguar moethus y noson honno? Does wybod.

**Mois**



# Entrepreneur ifanc yn agor siop ddillad vintage yng Nghaernarfon

## ARFOR – Llwyddo'n Lleol – Elfen 'Mentro'




"Mae un cam yn arwain at y llall," yn ôl un entrepreneur ifanc sydd wedi bod yn ddigon hyderus i fentro agor siop ddillad *Cymro Vintage* ar Stryd y Plas, Caernarfon.

Daw Dylan Glyn, sy'n 24 oed, yn wreiddiol o Gwm Gwendraeth, Sir Gâr. Dechreuodd Dylan y busnes yn araf bach trwy werthu dillad dros wefannau megis *Depop* ac *Instagram*, ond roedd yn awyddus i gryfhau ei sgiliau a datblygu'r busnes. Ac felly, ym mis Hydref 2023, cafodd ei dderbyn i'r elfen Mentro dan brosiect Llwyddo'n Lleol; ac mae'n amlwg wedi elwa ar y profiad.

Trwy gefnogaeth elfen Mentro Llwyddo'n Lleol, cafodd gyfle i fynychu 10 sesiwn wythnosol gydag arbenigwyr busnes a chyfle i ennill cefnogaeth ariannol i symud ei fusnes yn ei flaen. Ers hynny, mae hefyd wedi elwa o gefnogaeth Hwb Menter, cynllun sy'n cefnogi busnesau canol tref yng Ngwynedd a Môn.

Mae Dylan yn awr yn cymryd y cam nesaf, ac yn rhoi'r hyn a ddysgodd ar waith trwy agor ei siop gyntaf.

Meddai, "Dwi'n gyffrous iawn i fod yn gwireddu fy mreuddwyd o agor siop. Mae Llwyddo'n Lleol wedi bod yn andros o help i mi. Mae'r prosiect wedi cynorthwyo fi i gael yr hyder oeddwn ei angen i fynd ati i roi pob ymdrech i mewn i ddatblygu'r busnes.

"Mae'r profiad hefyd wedi rhoi'r hunan sicrwydd i mi y medra i wneud unrhyw beth efo'r busnes, hyd yn oed ar ôl i bobl eraill awgrymu na fedra i wneud. Roedd bod o gwmpas pobl oedd yn credu ynddoch chi ac efo'r un meddylfryd wir yn hwb i ni gyd fel entrepreneuriaid ifanc."

Er ei fod yn hannu o Sir Gâr, mae wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon ar ôl bod yn y Brifysgol ym Mangor, ac mae'n edrych ymlaen yn arw at gael cadw busnes yn y dref. "Wedi astudio ym Mangor am bedair blynedd, mi wnes i gwympo mewn cariad efo'r ardal a symud i fyw i Gaernarfon. Dyma un o'r penderfyniadau gorau i mi wneud erioed gan fy mod wrth fy modd yn byw mewn ardal mor hardd a Chymreig, efo gymaint o bobl glên o gwmpas."

ARFOR
LLWYDDO'N LLEOL 2050

Meddai Aled Pritchard, swyddog elfen Mentro Llwyddo'n Lleol: "Rydym yn falch iawn fod Dylan wedi elwa o fod yn rhan o elfen Mentro, prosiect Llwyddo'n Lleol, a bod y sesiynau hyfforddi wedi ei alluogi i wireddu ei freuddwyd. Rydym fel prosiect yn falch ein bod wedi chwarae ein rhan yn y datblygiad cyffrous yma.

"Mae Dylan wedi gweithio'n ddiwyd er mwyn datblygu ei fusnes, ac mae'n enghraifft dda o'r math o unigolion mentrus y mae Llwyddo'n Lleol yn falch iawn o'u cefnogi.

"Un o brif amcanion Llwyddo'n Lleol yw cefnogi unigolion ifainc ARFOR i lwyddo o fewn eu milltir sgwâr. Rydym yn falch ein bod yn medru arfogi pobl ifanc gyda sgiliau a phrofiadau a fydd o gymorth iddynt wrth fynd ati i ddatblygu syniadau busnes.

"Mae'n wych gweld hynny'n cael ei wireddu mewn enghreifftiau megis Dylan a'i fusnes, *Cymro Vintage*. Dymunwn bob hwyl iddo wrth iddo gychwyn ar y bennod newydd gyffrous hon."

Mae Dylan hefyd yn awyddus i gymryd camau ychwanegol er mwyn parhau i ddatblygu *Cymro Vintage*. Meddai, "Dwi'n gobeithio gweld y siop yn mynd o nerth i nerth yng Nghaernarfon, a'r gobaith yn y dyfodol yw medru cyflogi staff i weithio efo mi er mwyn i mi fedru mynd o gwmpas digwyddiadau a chynnal 'siopau pop-yp' mewn ystod eang o lefydd. Hoffwn ddiolch i Llwyddo'n Lleol a'r Hwb Menter am eu holl gymorth dros y misoedd diwetha' wrth i *Cymro Vintage* ddatblygu!"

**Arfor**

Ariennir rhaglen ARFOR gan Lywodraeth Cymru trwy'r cytundeb cydweithredol â Phlaid Cymru. Mae'n rhaglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn ac yn anelu at ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg, a thrwy hynny gynnal y Gymraeg. Dan Raglen ARFOR, ceir nifer o gronfeydd sy'n cynnig grantiau ariannol i fusnesau ac unigolion megis Cronfa Her ARFOR a'r Gronfa Gefnogaeth Cymunedau Mentrus

**Llwyddo'n Lleol 2050**

Un o brosiectau Rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau dros y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael, neu sydd eisoes wedi ymadael â'r broydd hyn, bod modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymunedau cynhenid.

I gael cip olwg ar gynnyrch unigryw *Cymro Vintage*, ewch draw i'w tudalen *Facebook* ac *Instagram.* Gellir ymweld â siop newydd *Cymro Vintage* ar Stryd y Plas, Caernarfon.

I ddysgu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael drwy brosiect Llwyddo'n Lleol, ewch i: **llwyddonlleol2050.cymru**

# Damcaniaethau Cydgynllwynion

Dwi'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonom ni wedi dod ar draws coelion afresymol sy'n rhedeg yn erbyn pob tystiolaeth resymegol.

Mae **damcaniaeth gynllwyn** yn wahanol i **gynllwyn**. Mae'n cyfeirio at gynllwyn damcaniaethol gyda nodweddion penodol. Gall gynnwys gwrthwynebiad i'r consensws prif ffrwd ac yn groes i'r rhai sy'n gymwys i werthuso cywirdeb, fel gwyddonwyr neu haneswyr.

Dyma ond rhai o'r mwyaf blaenllaw heb sôn am rai fel cynllwyn marwolaeth Diane, Dug Caeredin, John F. Kennedy a chwain Cyfandirol.

**Dyn ar y lleuad**: Honni bod yr Unol Daleithiau wedi ffugio glaniadau lleuad Apollo ym 1969 fel rhan o dwyll mawreddog. Yn ôl arolwg barn yn 2013 a gynhaliwyd gan Public Policy Polling, mae tua 7% o Americanwyr yn credu bod glaniad y lleuad wedi cael ei ffugio.

**9/11 – gwaith y llywodraeth**: Yn awgrymu bod llywodraeth yr Unol Daleithiau wedi trefnu ymosodiadau terfysgol 9/11 i gyfiawnhau ymyrraeth filwrol a chwtogi hawliau sifil. Canfu arolwg yn 2021 a gynhaliwyd gan Brifysgol Chapman fod 25.9% o Americanwyr yn credu bod llywodraeth yr Unol Daleithiau wedi bod yn rhan o ymosodiadau 9/11 i ryw raddau.

**Ardal 51 ac Estroniaid**: Yn cynnig bod Ardal 51, ardal filwrol gyfrinachol yn Nevada yr Unol Daleithiau, yn gartref i dystiolaeth o fywyd allfydol a thechnoleg estron uwch. Yn ôl adroddodd arolwg barn Gallup yn 2020 mae 33% o Americanwyr yn credu y gellir priodoli rhai gweledIadau UFO i long ofod estron.

**Cemegau o ôl-lif awyrennau**: Bod y llwybrau a adawyd gan awyrennau yn yr awyr mewn gwirionedd yn asiantau cemegol neu fiolegol a'u chwistrellu'n fwriadol at ddibenion nas datgelwyd – ond mae degau o ddamcaniaethau at y dibenion hyn hefyd. Canfu astudiaeth yn 2016 a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Environmental Research fod tua 10% o'r ymatebwyr yn credu yn y theori.

**Theori Daear Gwastad**: Yn honni bod y Ddaear yn wastad yn hytrach na sfferig, a bod tystiolaeth wyddonol sy'n cefnogi daear gron yn rhan o'r twyll. Fodd bynnag, canfu arolwg barn yn 2018 a gynhaliwyd gan YouGov fod 84% o'r ymatebwyr yn yr Unol Daleithiau yn credu'n gryf bod y Ddaear yn grwn, tra bod 5% yn credu ei bod yn wastad ac felly roedd yna 11% ddim yn gwybod!

**Cynllwyn Brechu**: honiadau bod brechlynnau'n niweidiol neu'n cael eu defnyddio at ddibenion ysgeler, fel rheoli poblogaeth neu elw. Mae'r theori hon wedi lladd miloedd ar filoedd o bobl e.e. Aids yn Affrica.

Da chi'n cofio Cofid – ma nhw'n gwrando arna ni?

**Elit o Ymlusgiaid**: Yn credu bod estroniaid o ymlusgiaid sy'n gallu newid eu siâp wedi ymdreiddio i swyddi pŵer a rheolaeth y byd. (Cofio David Icke?).




**Yr Holocost**: Gwadu neu ystumio realiti hanesyddol yr Holocost a hil-laddiad chwe miliwn o Iddewon gan yr Almaen Natsïaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn ôl ymchwil diweddar nid yw'r nifer a gred mewn theorïau o'r math wedi newid fawr ddim yn Ewrop na gogledd America dros y ddegawd olaf ac maent yn daer yn eu cred. Ni fu fawr o lwyddiant i'w perswadio'n wahanol drwy siarad a chyflwyno tystiolaeth.

I geisio gweld a oedd yna ffordd o'u perswadio'n wahanol gwnaed ymchwil gan Sefydliad Technoleg Massachusetts gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd o ddeallusrwydd artiffisial (DA). Cafwyd dros ddwy fil o gredwyr i'r prosiect, sef rhai gredai'n gryf mewn rhyw theori neu'i gilydd a'u cael i drafod eu cred a GPT-4. Roedd y credwyr yn cyflwyno eu tystiolaeth a sail eu cred i'r cyfrifiadur a'r DA yn ymateb.

Cafwyd fod 20% wedi diarddel eu cred neu'n ansicr o'i ddilysrwydd ar ôl tri sesiwn a'r DA. Diddorol de.

Ond mae nifer o gydgynllwynion hanesyddol wedi eu profi'n wir. Maent yn cynnwys sgandalau gwleidyddol, megis Watergate ac Iran-Contra.

Ond heddiw mae gennym y ffenomenon arall o newyddion ffug lle gall gwleidyddion fel Donald Trump a Boris Johnson ddweud celwydd noeth ac fe fydd yna garfan helaeth yn eu coelio. Rhyfedd o fyd.

***Gwyndaf Hughes***

## Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam

Roedd dinas Wrecsam yn fwrlwm o liw yn ddiweddar wrth i Orsedd Cymru gynnal Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Cynhelir y Brifwyl yn yr ardal o'r 2il hyd y 9fed o Awst y flwyddyn nesaf.

Roedd y Cyhoeddi yn gyfle i drigolion ac ymwelwyr weld un o seremonïau lliwgar yr Orsedd, ac i weld yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd yn trosglwyddo'r awenau i Mererid Hopwood, a fydd yn arwain a llywio gwaith yr Orsedd dros y blynyddoedd nesaf.

Yn hanesyddol, mae'n rhaid cyhoeddi bwriad Eisteddfod i ymweld ag ardal o leiaf flwyddyn a diwrnod cyn cychwyn y Brifwyl. Yn ogystal, dyma pryd y cyhoeddir y Rhestr Testunau, sef y rhestr o gystadlaethau a gwybodaeth i unrhyw un sy'n dymuno mynd ati i gystadlu'r flwyddyn nesaf.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Llinos Roberts, y copi cyntaf o'r Rhestr Testunau i'r Archdderwydd. Erbyn hyn, mae'r gyfrol ar werth mewn siopau ar hyd a lled Cymru.

Yn ôl Llinos Roberts, "Bwriad y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd i ddod ymhen blwyddyn a rhoi blas i bobl leol o seremonïau lliwgar yr Orsedd. Wrth gwrs, mae cyhoeddi'r Rhestr Testunau'n rhan fawr o'n gwaith ni'n lleol, ac rydw i'n ddiolchgar i bawb sydd wedi bod wrthi'n dewis a dethol cystadlaethau a thestunau dros y misoedd diwethaf.

"Rydyn ni wedi bod yn codi ymwybyddiaeth ac yn creu pwyllgorau ar draws yr ardal dros yr wythnosau diwethaf, ac mae gweithgareddau cymunedol yn dechrau cael eu cynnal yn rheolaidd i gefnogi'r gwaith o gyrraedd targed ariannol y Gronfa Leol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at bob math o gyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg ac yn ddwyieithog dros y misoedd nesaf wrth i ni baratoi ar gyfer yr ŵyl."

Am fwy o wybodaeth, ewch ar-lein, www.eisteddfod.cymru.

# Ar ben arall i'r lein

Mae dros ddau fis ers i'r tymor agor ei ddrws; ac eto tydi pethau ddim i weld fel petae bod pethau'n gafael ynddi ar yr afonydd. Be ydi'r ateb tybed, nid yn unig yn y fro hon ond trwy Gymru? Oes, mae rhai dyddiau pan fo pethau i weld yn dod at ei gilydd, fel y newyddion ardderchog fod sîls y gog i'w gweld yn niferus unwaith eto yn dilyn blynyddoedd llwm, ond buan iawn roedd pethau'n llithro nôl i drwmgwsg pysgodfaol. Efallai fod yr hyn sy'n digwydd ar y Fenai yn denu'r genweiri o'n hafonydd ac i drio eu lwc yn y dŵr hallt. Be ydi'r dynfa, felly?

Wel, dyma'r ateb i chi! Rwyf wedi cyfeirio'n ddiweddar at yr adroddiadau sy'n dod i law fod eogiaid wedi eu gweld yn neidio yn Aber Menai a Belan. Pwy a ŵyr i ble mae rhai ar daith? Ond yn nes adref, mae nifer fawr o ddraenogiaid y môr yn cael eu bachu o'r Belan, Porth Lleidiog, Caernarfon, Ala Lâs, Llanfair ac i lawr am Bont y Borth. Yn cydredeg â'r rhain, mae nifer enfawr o frithyll môr, gyda rhai hyd at 8 pwys yn cael eu glanio. Wrth gwrs, mae cadw'r un o'r rhain at y badell yn anghyfreithlon gan fod rhaid disgwyl iddynt redeg i'r afonydd cyn meddwl am gael ffidan fach. Tydi cyfraith gwlad yn rhyfedd ar faterion fel hyn! Fodd bynnag, mae'n bosib mynd â dau o'r draenogiaid adref. Ond cofiwch, mae'r hen ddraenogyn yn flasus dros ben hefyd pan yn union o'r dŵr hallt.

Mae hyn yn argoeli'n dda at weddill y tymor, yn enwedig ar y Seiont; oherwydd at ganol Mai fe fydd rhediad o wyniadau mawr yn dechrau eu hamlygu eu hunain. Os oes nifer fawr yn y Fenai, yna yn ôl pob golwg cawn weld y basgedi a'r padelli dan eu sang eleni. Cawn weld, yn de!



A throi oddi wrth yr afonydd ac at y llynoedd. Mae'r cychod allan o'r diwedd, a diolch i'r criw bach am eu gwaith unwaith eto. Ia, ofer fu'r apel yn yr *Eco* diwethaf am dipyn o ysgwyddau ychwanegol at y gwaith. Siomedig iawn, yn de. Fodd bynnag, mae Llyn y Dywarchen yn atyniad gwerth ei gael: mae'r lle'n denu pysgotwyr o bell. Wrth gwrs, y cynllun stocio ardderchog sydd y tu ôl i hyn i gyd. Yn anffodus, nid yw pawb yn ei gweld fel hyn gan fod rhaid bod yn wyliadwrus dros ben o rai sy'n gwneud eu gorau i ddifetha pob dim. Unwaith eto, mae'r heddlu'n amlwg trwy eu habsenoldeb o ran mynd i'r afael â'r broblem. Efallai fod hyn yn un o'r rhesymau dros y ffaith bod nifer fawr o bysgotwyr y fro wedi cadw draw a pheidio â phleidleisio yn yr etholiad am Gomisiynydd yr Heddlu.

Does dim dwywaith fod y Clwb wedi bod yn flaenllaw o ran codi'r ymwybyddiaeth o broblemau Llyn Padarn. Y diweddaraf, fel mae pawb yn gwybod, yw'r chwyn ymledol sy'n brysur cymryd y lle drosodd. Pam ei fod yn tyfu mor gyflym? Wel, wrth gwrs, mae'n rhaid i bopeth gael gwrtaith i ffynnu; ac fel rydym wedi bod wrthi am dros 30 mlynedd, mae digon o wrtaith yn rhedeg i'r llyn. Fel y gwyddoch, mae'r awdurdodau i gyd yn gwrthod cydnabod y broblem. Ond o'r diwedd, wedi'r holl flynyddoedd ac wedi'r holl fysedd milain a anelwyd at y Gymdeithas Bysgota am i ni feiddio adrodd am wirionedd y broblem, mae carfannau eraill sy'n ymwneud â diddordebau dyfrol yn codi eu llais ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd. Ia, o'r diwedd!



Brithyll yr Enfys dros 3 pwys o'r Dywarchen

Dyma'r diweddaraf, felly. Ar 2ail Mai, cafwyd erthygl yn y *Daily Post* i rybuddio'r cyhoedd fel a ganlyn: "Rhybudd am garthffos heb ei drin wedi ei ollwng i draethau a llyn". Y llyn wrth gwrs oedd Padarn. Dyma'r arwydd oedd gyda'r rhybudd:

Fe euthum draw i Lanberis i gael golwg, ac er syndod roedd yna rai yn nofio yn y budreddi. Does eisiau gras!

Mae'r gerdd 'Tylluanod' gan R Williams Parry yn adnabyddus drwy'r fro ac ymhellach wrth gwrs, diolch i Hogia'r Wyddfa. Dyma'r ail bennill:

Pan siglai'r hwyiad gwylltion
Wrth angor dan y lloer,
A Llyn y Ffridd a Ffridd y Llyn
Trostynt yn chwipio'n oer,
Lleisio'n ddidostur wnaent i ru
Y gwynt o Goed y Mynydd Du.

Efallai y caf fy nghywiro, ond roedd R. Williams Parry'n cyfeirio at y gwynt o Gefn Du. Pam Cefn Du? Wel, wrth iddo edrych arno roedd y lle i gyd wedi ei orchuddio â grug, fel yr Elidir Fach. Oes rhywun wedi sylwi ar Gefn Du heddiw? Nid yw ei hanner yn ddu ddim mwy. Be sy'n mynd ymlaen tybed? Ydi'r grug yn marw? Neu a oes rhywbeth arall yn mynd ymlaen? Edrychwch ymhellach ar yr Elidir Fach i weld sut mae'r grug yno hefyd yn diflannu. Yr oedd yna amser, wrth i mi 'sgota gyda'r nos o'r cwch rhwng Craig y Fulfran a Thro Twnel, y byddai Elidir Fach uwch clawdd y mynydd yn disgleirio gyda lliw porffor anhygoel. Ond dim ond o ganol y llyn yr oedd modd gweld hyn. Doedd yr effaith anhygoel yma ddim i'w weld oddi ar y glannau. Tybed ai ni, yr hen griw, yn unig fydd yn cofio'r gwyrthiau lleol hyn, o hyn ymlaen.

Be sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas? Oes rhywun yn rhywle yn gwybod? Mae cymaint o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn tyfu o gwmpas ein traed yma, a'r cyfan yn ymwneud â gwarchod yr amgylchedd ac ati. Ond mewn difri, ai ond y ni fel sgotwrs sy'n gweld be sy'n digwydd? Yr unig beth sy'n digwydd ydi sugno arian cyhoeddus i'w coffrau eu hunain, a dim byd arall. A oes un o'r criwiau yma am wneud rhywbeth ynghylch trafferthion Padarn a dirgelwch y grug diflanedig?

Hwyl unwaith eto.

**Huw Price Hughes**



Cefn Du a'r grug yn diflannu

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod 19eg Mawrth 2024

**1. Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.**

**2. Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod 20fed Chwefror 2024, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.**

**3. Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, aelodau dros Lanrug a Chwm-y-glo ar Gyngor Gwynedd. (Copiau i'w cael gan y Clerc)**

**4. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.**
**4.1** Asesiadau risg gweithio yn unigol ac unigolion bygythiol/treisgar/blinderus wedi eu cwblhau ac wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Bydd pob pwyllgor yn cael copi o hwn i'w gwblhau.
**4.2** Mae angen creu asesiadau risg ar y canlynol yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:
a) Defnyddio cerbydau ar fusnes y Cyngor.
b) Maes parcio.
c) Cynllyn Bwyd.
d) Tywydd anffafriol.
**4.3** Adroddwyd fod cŵyn wedi ei derbyn am gyflwr y gwair yn y lle parcio yn y fynwent yn dilyn angladd yn ddiweddar mewn tywydd garw. Mae'r gŵyn am y maes parcio yn y fynwent wedi'i chyfeirio at Bwyllgor y Fynwent.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**5. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent. Adroddwyd ar y canlynol:**
**5.1** Yn dilyn cysylltu ag ymgymerwyr a seiri maen lleol i weld os oes diddordeb i wneud gwaith iechyd a diogelwch anorfod yn y Fynwent, penderfynwyd mewn cyfarfod o'r is-bwyllgor i roi'r gwaith allan i dendr. Mae'r broses tendro wedi dod i ben a phenderfynwyd gan yr is-bwyllgor y bydd Roberts and Owen Cyf, Penygroes yn gwneud y gwaith o drin 20 cofeb anniogel am gost o £2k, i'w cwblhau erbyn Mai 21.
**5.2** Gwaith arall yn y Fynwent y mis diwethaf: trwsio wal sydd yn arwain at giatiau'r fynwent; torri gwair cyntaf y flwyddyn.
**5.3** Gwaith i ddod yn y Fynwent: arwyddion newydd ynglŷn â pharcio ar y glaswellt mewn tywydd gwlyb; parchu'r Fynwent ac adrodd am ddifrod; gweithredu ar fesurau ail-gylchu newydd Llywodraeth Cymru.
**5.4** Bydd rhaid adrodd i'r Cyngor Sir unwaith eto am gyflwr ei lôn sy'n arwain at y Fynwent yn dilyn damwain i un o ymwelwyr i'r Fynwent.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**6. Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:**
**6.1** Mae angen creu rhestr o reolau ar gyfer y caeau chwarae, y gampfa awyr agored a'r parc sglefrio.
**6.2** Edrych i mewn i'r posibilrwydd o wneud cais am arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol.
**6.3** Ffens Pwll Moelyn: mae rhan o'r ffens bresennol angen ei hadnewyddu oherwydd ei bod wedi pydru. Mae pris wedi ei dderbyn ar gyfer adnewyddu gyda ffens fetel, a bydd y gwaith yn cychwyn maes o law.
**6.4** Nodwyd bod y Cynghorwyr Avril Jones a Gwynedd Williams wedi bod o amgylch y caeau chwarae gyda'n contractwr yn amlinellu pa waith sydd angen ei wneud.
**6.5** Nodwyd bod y goeden er cof am y diweddar Gynghorydd Charles Jones i weld wedi ei malurio ar gae chwarae Pwll Moelyn.
**6.6** Nodwyd bod ymholiadau wedi eu gwneud i Gyngor Gwynedd ddarparu biniau ail-gylchu ar ein caeau chwarae a bod y rhain yn cael eu gwagio gan y criw sy'n casglu'n wythnosol.
**6.7** Asesiad risg: nodwyd bod pob aelod i'w gwblhau yn unigol.
**6.8** I ddarparu a lleoli cysgodfa bws ger Y Glyntwrog.
Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**7. Cymeradwywyd argymhelliad y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau i godi cysgodfa bws ger y Glyntwrog**

**8. Ceisiadau am gymorth ariannol:**
Clwb Pêl Droed Llanrug; Seindorf Arian Llanrug. Penderfynwyd: Grant o £1,200 ar gyfer y Clwb Pêl Droed.
Grant o £900 ar gyfer y Seindorf Arian.

**9. Cymeradwywyd y newyddlen ar gyfer 2023/2024.**

**10. Ceisiadau Cynllunio:**
Rhif y Cais: C24/0029/23/LL – Cais i ddymchwel tŷ presennol ac adeiladu tŷ yn ei le ac adeiladu modurdy domestig, ynghyd â newidiadau i'r fynedfa bresennol: cynlluniau diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan cais rhif C22/0805/23/LL. Lleifior, Llanrug.
Penderfynwyd: Cefnogi'r cais ond gydag amodau Dŵr Cymru.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod 9fed Ebrill, 2024

**Cofnodion 5ed Mawrth 2024**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir, a nodwyd bod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan y Cyngor.

**Cysgodfa Bws Dinorwig**
Yn dilyn asesiad gan Gyngor Gwynedd, awgrymwyd fod y Cyngor Cymuned yn cau'r gysgodfa hyd nes y bydd wedi cael ei hadnewyddu am fod peryg i'r to ddisgyn i mewn. Gwnaed hyn ar unwaith er mwyn diogelwch y cyhoedd, ac aethpwyd ymlaen i gael amcan brisiau ar adnewyddu'r gysgodfa. Yn y cyfamser, mae'r Clerc wedi derbyn sawl cŵyn gan nifer o'r cyhoedd, oedd o bosib yn amau fod y gysgodfa wedi ei chau am byth. Ond mae'r Clerc wedi sicrhau ein bod yn ceisio adnewyddu mor fuan â phosib, a diolch i'r cyhoedd am fod yn amyneddgar tra mae hyn yn mynd ymlaen.

**Prosiect Natur Llanddeiniolen**
Croesawyd Angharad Owen atom i roi gwybodaeth am yr hyn sydd wedi datblygu yn y tair blynedd diwethaf. Ar draws y gymuned, maent wedi plannu perllannau, datblygu cysylltiadau a gweithio gyda'r ysgolion, Menter Gymunedol Bethel, ynghyd â gwahanol fudiadau mewn pentrefi. Yn ddiweddar, mae hi wedi cychwyn cydweithio ag Adra ym Mhenisarwaun i blannu bylbiau, ac mae hi'n gobeithio cydweithio â Gareth Roberts yn fuan. Maent wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn nifer o grantiau trwy gydweithio â grwpiau o'r gymuned. Cytunwyd bod hwn yn syniad da, a byddwn fel Cyngor yn cysylltu ag Angharad i'n harwain ar ardaloedd yn y dyfodol. Nodwyd fod un ardal yn barod dan sylw, sef datblygiad o dai gan Adra ym Methel, lle mae llain o dir neilltuol wedi ei nodi fel glastir. Efallai y buasai yn syniad o'r cychwyn cael arbenigedd Angharad i ddatblygu'r llain tir yma gan gydweithio gydag Adra. Diolchwyd iddi am ddod.

**Cynllunio**
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

**C24/0249/18/LL – Fferm Llys, Brynrefail**
Codi adeilad amaethyddol – Teimlai'r Cyngor nad ydym yn gallu cefnogi hyn gan fod diffyg gwybodaeth ar ddefnydd yr adeilad.

**C24/0149/18/DT – 14 Pentre Helen, Deiniolen**
Estyniad porth i annedd presennol – Dim gwrthwynebiad

**C24/0224/18/LL – Tŷ Rallt, Seion**
Codi to dros yr iard fferm bresennol – Dim gwrthwynebiad

**C24/02402/18/DA – Maes Carafanau Rhyd y Galen**
Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio C23/0746/18/LL – Dim gwrthwynebiad

# Cyngor Cymuned Llanrug

**Asesiad Risg**

Dymuna Cyngor Cymuned Llanrug roi rhybudd y bydd yn gwneud Asesiad Risg ar gofebion yn y Fynwent.

Rhagdybir y bydd y gwaith yn cychwyn 1af Mehefin, 2024

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cwbhau'r Asesiad Risg yma achosi gofid i berchnogion cofebion a'u teuluoedd, ond dymuna'r Cyngor eich sicrhau y bydd yr Asesiad yn cael ei weithredu'n barchus gan swyddog proffesiynol yn y maes, ac yn unol â rheoliadau cenedlaethol.

Os ydych yn dymuno rhagor o wybodaeth am y broses, dylech gysylltu â Chlerc y Cyngor trwy e-bost at **clerc@llanrug.cymru**

Meirion Jones PSLCC
Clerc Cyngor Cymuned Llanrug
Rhif Ffôn: 07769 112875







**C24/0185/18/DT – Bwthyn Tal y Waun, Deiniolen**
Codi Sied ar gyfer beiciau ac offer – Dim gwrthwynebiad

**Tŷ Mawr Cottages** –
Mae'n ymddangos fod yna welliannau'n cael eu gwneud ar y safle unwaith eto. Gofynnwyd i'r Clerc roi gwybod i'r Adran Gynllunio.

**O Gwmpas y Bwrdd**
**Llys Iolen, Penisa'r-waun**
Tyfiant yn dod drosodd i'r ffordd, y lôn sydd yn dod i fyny o Lanrug.

**Parc Carafanau Brynrefail**
Roedd dwy broblem wedi codi ynglŷn â'r safle. Yn gyntaf, roedd tipio anghyfreithlon ganddynt wrth ymyl tai cyfagos: mae bellach wedi ei symud. Yna, nodwyd fod sawl carafán wedi cael eu sefydlu yn dipyn agosach i'r ffordd fawr nag arfer. Pan ymchwiliwyd i hyn, nid oedd ganddynt hawl cynllunio i wneud hynny. Felly, mae'r opsiwn ganddynt un ai i symud y carafanau ychwanegol, neu i gyflwyno ôl-gais cynllunio. Mae'r wybodaeth i gyd wedi mynd i'r brif swyddfa; ac felly, mater o ddisgwyl a gweld be fydd yn digwydd.

**Ffordd o Beran i Dŷ Mawr**
Mae'r ffordd yma'n dirywio yn ddyddiol, ac yn dilyn glaw trwm nid oes posib gweld y tyllau. Mae hynny yn ei gwneud yn beryglus iawn mewn mannau.

# 40 Mlynedd o Wrando

Eleni bydd Cangen Gogledd Orllewin Cymru o'r Samariaid wedi gwasanaethu'r ardal hon – Gwynedd, Ynys Môn a Gorllewin Sir Conwy – am 40 mlynedd. Atebwyd yr alwad ffôn gyntaf ar 20fed Mai 1984 ac ers hynny mae'r gangen wedi ymateb i dros dri chwarter miliwn o alwadau am gymorth, ac mae dros 900 o bobl wedi gwirfoddoli yn y gangen dros y blynyddoedd.

Mae'r gangen yn rhan o fudiad ehangach y Samariaid, a gafodd ei sefydlu 71 o flynyddoedd yn ôl gan Chad Varah. Un o'i ddyletswyddau yn ei swydd gyntaf fel offeiriad oedd gweinyddu mewn angladd merch 14 oed a oedd wedi diweddu ei bywyd wedi iddi ddechrau ar ei misglwyf a meddwl mai'r diafol oedd wedi ei meddiannu. Doedd ganddi neb i rannu ei phryder. Cafodd hyn argraff ddofn ar y Chad ifanc, ac ychydig flynyddoedd wedi hynny sefydlodd y Samariaid, gyda'r nod o gynnig gwasanaeth tebyg i'r gwasanaeth 999 i'r rhai oedd yn ystyried diweddu eu bywydau. Mae gan y Samariaid dros 200 o ganghennau heddiw.

Clust i wrando yw'r gwasanaeth 24 awr a gynigir gan y Samariaid, a gweledigaeth y mudiad yw y bydd llai o bobl yn marw trwy hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel: mae'n bosib ei rwystro, ac mae ymchwil byd eang wedi dod i'r casgliad mai'r allwedd i geisio rhwystro marwolaethau o'r fath yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth; ond y tu ôl i bob achos mae unigolyn sy'n gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled. Yng Nghymru yn 2023, diweddodd 356 o bobl eu bywydau, ac yn gyffredinol roedd cyfradd y marwolaethau'n uwch yn yr ardaloedd gwledig.

Nid oes rhaid bod â theimladau hunanladdiad i gysylltu â'r Samariaid fodd bynnag: mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth cefnogaeth emosiynol i unrhyw un sy'n anobeithio, yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn unig, neu'n cael problemau perthynas. Yn 2023, ymatebodd y Samariaid i alwad am gymorth bob 10 eiliad, gan ateb 3.3 miliwn o alwadau am gymorth dros y gwahanol gyfryngau sydd ar gael i gysylltu.

Y ffôn yw'r dull mwyaf poblogaidd i gysylltu o hyd, ac atebwyd dros 3 miliwn o alwadau ffôn; nid oedd yr un eilaid pan nad oedd y Samariaid ar y ffôn yn gwrando. Mae'r gwasanaeth rhad-ffôn Saesneg (ar 116 123) ar gael 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r Llinell Gymraeg (ar 0808 1640123) ar gael yn rhad ac am ddim hefyd, o 7 tan 11 bob nos.

Mae angen parhaus am wirfoddolwyr, yn enwedig siaradwyr Cymraeg; a bydd cwrs hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn dechrau ym mis Mehefin. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, ffoniwch y Swyddfa ar 01248 67484. Mae hwn wrth gwrs yn rhif gwahanol i'r llinell ffôn am gymorth emosiynol. Neu e-bostiwch recriwtio@samariaidbangor.org i gael rhagor o wybodaeth.

Gellir dysgu mwy am ein gwaith ar wefan y gangen www.samariaidbangor.cymru. I gyd-fynd â'r garreg filltir o wrando am 40 mlynedd, mae'r gangen wedi cyhoeddi llyfr sy'n rhoi gwybodaeth am fudiad y Samariaid a hanes 40 mlynedd cyntaf y gangen yma yng Ngogledd Orllewin Cymru. Teitl addas y llyfr yw *40 Mlynedd o Wrando*, a'i bris yw £10 (£13 drwy'r post). Gellir archebu copi trwy ebost – tudur.colwyn@gmail.com

**Tudur Williams**



# Garddio



**MEHEFIN**
Mae hi'n ddiwrnod Gŵyl Fwyd Caernarfon wrth ysgrifennu hwn, ac felly, fel arfer, mae hi'n haul braf! Wedi bod yn dyheu am gael tywydd cynhesach er mwyn cael eistedd yn yr ardd a gafael yn y garddio. Pethau wedi tyfu'n dda, a blodau'n llenwi borderi'r ardd gyda lliwiau amryliw ac arogleuon hyfryd. Roedd Carol Williams ar Radio Cymru'r bore yma'n nodi pwysigrwydd denu peillwyr i'r ardd. Wedi'r cyfan, heb beillwyr fyddai dim blodau na ffrwythau, ac felly dim bwyd i ni. Mae'r cylchgrawn '*Garden Answers'* yn trafod hyn ac yn nodi flynyddoedd maith yn ôl bod planhigion yn dibynnu ar y gwynt i'w peillio. Dull anwadal braidd ac mae 85 - 90% o blanhigion bellach wedi esblygu i ddefnyddio pryfetach a gwenyn o bob math i'w peillio. Sut mae'r planhigion yn denu peillwyr tybed? Mae gan rai planhigion flodau lliwgar tra bod eraill efo arogl hyfryd sy'n denu'r peillwyr. Mae rhai'n gwobrwyo'r peillwyr trwy gynnig siwgr melys iddynt, sef neithdar. Da ydy natur. Gobeithio, wrth ddarllen hwn, bydd y tywydd braf yn parhau, am sbel o leiaf!

**Tasgau**
1. Dal ati efo'r hof. Dyfal donc a dyrr y garreg meddan nhw, neu yn yr achos yma, dyfal donc sy'n chwalu'r chwyn.

2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Ocê, dwi'n gwybod ein bod wedi cael mwy na'n siâr o law dros y misoedd diweddar, ond os daw haul ar fryn, (sori) mi fydd angen dyfrio, yn enwedig planhigion newydd i'ch gardd chi. Rhowch haen o domwellt (*mulch*) dros eich borderi, fydd yn cadw gwlybaniaeth i mewn ac yn y pendraw'n gwella'r pridd. Mae sawl casgen ddŵr yma, ac yn ystod misoedd cynhesach yr haf mae'r dŵr glaw yma, gasglwyd o'r landerydd, yn hytrach na dŵr tap, yn hynod o handi i ddyfrio. Pwyntiau bonws, mae'n well i'r amgylchedd ac i'ch planhigion. Os ydach chi ar fetr dŵr mi fydd yn well i'ch cyfrif banc hefyd. Peidiwch â dyfrio pan yw'r haul allan, ewch ati'n gynnar yn y bore cyn i'r haul ddod allan, neu gyda'r nos pan fydd yr haul wedi machlud.

3. I ddychwelyd at y peillwyr, beth allwch chi ei wneud i'w denu nhw i'ch gardd chi? Mae gwenyn yn enwedig, yn hoff o'r lliw glas, felly plannwch flodau sydd ar y sbectrwm glas a phiws, beth am yr *eryngium*. Ceisiwch sicrhau bod rhywbeth yn blodeuo trwy'r haf ac i mewn i'r hydref. Os am ddenu'r gloÿnnod beth am blannu lafant, mintys y creigiau (*marjoram), buddleja* a *verbena bonariensis?* Mae plannu un math mewn blociau yn fwy effeithiol. Yn anad dim, peidiwch â defnyddio pla laddwyr. Gallwch hefyd blannu coed sy'n blodeuo ac yn ddefnyddiol i'r peillwyr, pethau fel coed ffrwythau - afalau, afalau surion bach, gellyg, ceirios ac eirin. Mi gewch chithau wledda ar y ffrwythau ar ôl i'r peillwyr wneud eu gwaith. Mae coed drain gwynion hefyd yn hyfryd mewn unrhyw ardd. Ar raddfa lai mae' '*deutzia*' yn boblogaidd gyda'r caci bwm (*bumblebees*) yn ogystal â'r *buddlejas,* sy'n denu gloÿnnod o bob math gyda'u blodau pinc, gwyn a phiws (coeden pili pala yw un enw arall arni).

Os am dyfu pethau gallwch eu bwyta, ond sydd hefyd yn denu'r peillwyr, beth am dyfu mafon, sy'n cynnig bwyd i'r peillwyr am gyfnod o dri mis.



4. Os yw'n boeth cofiwch awyru'r tŷ gwydr, trwy agor ffenestri neu adael y drws yn agored. Cofiwch dynnu'r 'lladron' oddi ar y tomatos, rhag iddynt ddwyn nerth y planhigyn.

5. Wrth i'r tywydd gynhesu mae salad yn fwy deniadol, yn enwedig os ydach chi'n ceisio colli ychydig bwysau, fel fi. Mae'n syniad da i hau pethau megis letys, rhuddygl (*radish*) a nionod mân bob rhyw 3 - 4 wythnos i sicrhau cnwd cyson. A be gewch chi'n well na thatws newydd i gyd-fynd â'ch salad?

6. Os nad ydach chi'n byw mewn lle rhy wyntog (dwi ddim hyd yn oed yn ystyried plannu rhai acw) gosodwch eich basgedi crog yn eu lle, a llenwch eich tybiau a bocsys ffenest gyda blodau. Mae socian basgedi crog mewn bwced o ddŵr yn fwy effeithiol na thrio eu dyfrio nhw ar y bachyn.

7. Plannwch unrhyw flodau blwyddol, nad ydach chi eisoes wedi eu plannu, gan gofio eu dyfrio'n dda a dal at i ddyfrio nes eu bod wedi sefydlu.

8. Tociwch unrhyw lwyni sydd eisoes wedi blodeuo yn y gwanwyn.

9. Peidiwch â thorri dail bylbiau'r gwanwyn, gadewch iddynt wywo. Bwydwch nhw trwy wasgaru *blood fish and bone* o'u cwmpas a'u dyfrio i sicrhau bod y gwrtaith yn mynd i'r gwreiddiau, os nad ydach eisoes wedi gwneud hynny. Buan y bydd y dail yn darfod, felly fyddan nhw ddim yn edrach yn flêr yn hir. Fel arall, cewch sioe siomedig o flodau lliwgar yn y gwanwyn yn 2025.

**Cnoi cil**
Mae modd gwneud rhywbeth gwahanol bob blwyddyn yn yr ardd.

Eleni mi ydw i wedi ceisio tyfu *perpetual spinach* ac yn lle tyfu ffa dringo sy'n cael eu chwalu gan y gwynt neu ffa Ffrengig sy'n rhoi fawr o gnwd, dwi wedi ceisio tyfu *runner beans* bach. Does wybod sut fyddan nhw'n tyfu na sut gnwd rown nhw. Dim ots mae o i gyd yn rhan o'r hwyl wrth arddio.

Dydw i hefyd ddim yn hoffi gwastraffu dim byd. Dwi'n ail-gylchu gymaint â phosib. Un peth sydd yma ers tro yw berfa binc. Ia, ocê wnes i ei berswadio fo byddai'n hardd a defnyddiol. Erbyn hyn mae'r olwyn wedi chwalu a phrynwyd berfa 'normal' ddu yn lle'r un binc, sy'n hynod ddefnyddiol. Ond beth oeddwn am ei wneud efo'r ferfa binc? Ail-bwrpasu amdani. Driliwyd tyllau yn y trwmbal a gydag ychydig o fôn braich llwyddwyd i'w chario at ymyl stepiau sy'n rhedeg ger ochr y tŷ. Plannais y trwmbal efo 3 grug (brynwyd o ganolfan arddio lleol) ond mae'r gweddill yn bethau oedd eisoes yn tyfu acw neu'n bethau dwi wedi eu tyfu o hadau neu gymryd toriadau o bethau o'r ardd. Ffordd dda o ddefnyddio beth oedd eisoes yma, heb gostio'n ddrud. Gwell fyth, hyd yma, dydy'r defaid ddim wedi bwyta dim byd… Amser a ddengys.



Dwi'n cael pleser mawr o fy ngardd fach ac yn mwynhau eistedd ar ddiwedd dydd i fwynhau'r lliwiau a'r holl siapiau a ffurfiau gwahanol. Efallai na fydd popeth yn ffynnu ond mae'r mwyafrif o bethau'n tyfu'n iach. Ni fydd ambell un yn goroesi'r gaeaf sydd o'n blaenau eto eleni. Dim ots, ar ddiwedd y dydd mae pleser a boddhad i'w gael wrth gyd-weithio efo natur.
**Rhosyn Mynydd**

# Dramâu Wil Fôn - Rhan 3

[William Vaughan Jones, 1906 – 1978]

***Roedd Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn ystod y 1940au a'r 50au yn hynod boblogaidd, gyda nifer o eitemau difyr wedi eu paratoi ar gyfer yr aelodau. Pob pythefnos ar nos Lun yn y gaeaf y cynhaliwyd Cymdeithas y Waun, ac yng Nghroesywaun ar y naill. I ddiweddu'r Gymdeithas yn y Waun, cynhelid swper cyllell a fforc, cyn i'r aelodau wedyn eistedd yn ôl i fwynhau sgets fer roedd William Vaughan Jones, Bron Eryri wedi ei darparu ar eu cyfer. Aelodau o'r gymdeithas fyddai'n cymryd rhan yn y sgets a byddai yna edrych ymlaen yn arw am y perfformiad.***

Wrth actio Wmffra, rhaid oedd i Bob Morris gael locsyn a thynnu ei ddannedd gosod yn ogystal â gwisgo het gantel meddal a chlocsiau am ei draed. 'Exit' Bob, ac wele Wmffra yn edrych yn hen iawn.

Cofiaf ar ddiwedd un perfformiad yn neuadd Rhosgadfan a hen wreigen yn dod drwodd i'r cefn - fel byddai pobl yn dod i ddweud eu bod wedi mwynhau'r noson. Erbyn hyn roedd pawb wedi newid a Bob yntau 'nôl yn ei ddillad ei hun ac yn edrych yn daclus. Roedd Bob wrthi'n cau careai ei esgidiau pan ddaeth yr hen wraig ato a gofyn, "Lle mae o dudwch?"

"Am bwy dachi'n chwilio Musus?"

"Wel am yr hen fachgan hwnnw te, wel doedd o'n dda - wedi medru dysgu a chofio ei ran a fynta yn yr oed mawr fel mae o de!"

"Dwi'n siŵr mod i wedi ei weld o yn mynd allan drwy'r drws cefn ryw funud neu ddau yn ôl." meddai Bob.

"Wel, mae un peth yn saff, mi fydd raid i mi gael ysgwyd llaw efo fo cyn mynd adra heno, yr hen greadur!" Ac allan a hi drwy ddrws y cefn, a ninnau'n chwerthin yn drybola. R'hen greadures!

Yn neuadd y Groeslon, fis Mawrth 1955 y bu Bob Morris berfformio diwethaf. Roedd y criw yn barod i fynd ar y llwyfan pan drawyd Bob â phoenau mawr yn ei frest. Roedd pawb wedi dychryn a'u styrbio yn arw - heb Bob ddim drama! Ymhen ychydig daeth rhywun a gwydriad o frandi iddo, ac o dipyn i beth daeth Bob ato'i hun. Roedd Wil Fôn am ganslo'r perfformiad ond mynnai Bob ddim. "Dwi'n well o lawar rŵan, peidiwch â phoeni mi fyddai'n iawn!"oedd ei eiriau.

Dyna'r tro olaf i Bob Morris ymddangos ar lwyfan. Fu ddim trefn arno ar ôl hynny, ac ar yr 28ain o Fai 1955, bu farw yn 63 oed.

Yn dilyn marwolaeth Bob Morris doedd neb yn meddwl y buasai yna ddrama wedyn ond, un noson ym mis Medi dyma gopi arall yn glanio ar y bwrdd. "Practis nos Fawrth am saith, cofia fod yno!"

'Y Nogio ym Mhenygarn' oedd teitl y ddrama. Er mai comedïau roedd Wil Fôn wedi eu hysgrifennu o'r blaen, roedd hon yn ddrama fwy difrifol. '*Thriller*' efallai?' Pan ddarllenais y sgript roeddwn yn meddwl o ddifri na fuasai hon yn mynd i lawr yn dda yn enwedig wedi'r rhialtwch efo Wmffra ac Elin. Hanes oedd hwn am griw yn dod at ei gilydd i berfformio drama. Drama am hanes Branwen yn yr Iwerddon a hithau wedi cael ei cham-drin yn y fan honno, a milwyr y Cedyrn wedi mynd drosodd i'w chyrchu adref.

Roeddwn wedi darllen yr hanes pan yn blentyn ac yn ei gael yn anodd ei ddeall ac mae'n debyg na fuasai'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa yn gwybod yr hanes am Branwen, ac felly y bu. Doedd neb wedi deall y plot. Meddai Owen Jones, (tad Wil Fôn) "Ddallt'is i ddim be oedd yn mynd ymlaen wir!" ac meddai John Gwilym Jones yn ystod un o'r ymarferion, "Hon ydi dy ddrama di Wil?" Mae'n debyg pe tai rhywun arall wedi'n cyfarwyddo yn well efallai byddai gwell ymateb wedi bod.

Cofiaf yn dilyn perfformiad o'r ddrama ym Mhwllheli, a ninnau'n dod i'r llwyfan ar y diwedd a Mrs Williams, gwraig Siop y Post Waunfawr gynt yn dod ymlaen a chyflwyno tusw o flodau i Wil Fôn. Roedd Wil wedi ei syfrdanu! Roeddwn innau'n sefyll wrth ei ochr ac meddai drwy ochr ei geg, "Yli, dos a Rhein i Gwladys!"

Roedd Gwladys Lewis yn sefyll yng nghanol y rhes, a minnau'n mynd a'r blodau iddi. Wrth gwrs, roedd Gwladys wrth ei bodd - ond i Wil Fôn roedd y blodau i fod.

'Y Nogio ym Mhenygarn' oedd y ddrama ddiwethaf i'r criw ei hactio. Yn anffodus, roedd y criw wedi nogio hefyd.

**William Vaughan Jones.**
**1906 – 1978**

*Gobeithio y cawsoch fwynhad o ddarllen hanes Cymdeithas Lenyddol y Waunfawr yn perfformio Dramau Wil Fôn yn rhifynnau diwethaf Eco'r Wyddfa.*

















ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

## DINORWIG

**Tywydd**
Mae wedi parhau'n wyntog a gwlyb, ac mae'n gyndyn iawn o gynhesu. Rwy'n dal i ddisgwyl clywed y gog.

**Diolch**
Cawsom oedfa arbennig ar ddydd Sul, 5ed o Fai. Bydd yr oedfa'n aros yn fy nghof am hir iawn. Diolchwyd i ni, aelodau'r gynulleidfa, am ddod i'r oedfa a rhoi croeso cynnes i'r pregethwr. Carwn innau hefyd, ddiolch i'r rhai sy'n gofalu dod i Ddinorwig i'm cario i Ddeiniolen bob Sul, ac am fy nanfon gartref yn ddiogel.

**Yr Allt Ddu**
Syndod oedd darllen yn yr 'Eco' diwethaf fod 200 o bobl wedi pleidleisio i wrthwynebu gosod llinellau melyn yma. Tybed pwy oedd y bobl hyn – a'i trigolion Dinorwig oeddent – a pha bryd, ac i bwy yr anfonwyd yr arolwg?

**Gwasanaethau'r Sul yn Nhŷ Elidir, Deiniolen**
Dalier sylw ar amseroedd y gwahanol Suliau.
2il Mehefin. Mr Robert Morris, Nantlle. 5.00pm
9fed Mehefin. Parch Nerys Griffiths, Caernarfon. 2.00pm
16eg Mehefin. Oedfa. 3.30pm
23ain Mehefin. Parch Gerallt Evans, Ynys Môn. 5.00pm
30ain Mehefin. Parch John Prichard, Llanberis. 3.30pm
7fed Mehefin. Parch John Prichard, Llanberis 3.330pm

**Cysgodfan**
Mae'n ymddangos fod oes y gysgodfan wedi dirwyn i ben. Mae wedi gwasanaethu trigolion Dinorwig ac ymwelwyr ers blynyddoedd bellach, a rhaid bod yn ddiolchgar na chafodd ei fandaleiddio fel sy'n digwydd mewn amryw ardal. Does ond gobeithio na fydd ei hangen tan fisoedd y gaeaf.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd mewn cartrefi henoed, yn yr ysbyty neu'n gaeth i'w tai.




# PLEIDLEISIO

Wn i ddim wnaethoch chi bleidleisio ar ddechrau Mai. Roedd yr ymateb yn rhyfeddol o wantan a llai na 20% o'r boblogaeth ar draws gwlad yn trafferthu i godi allan i roi croes wrth enw un o'r ymgeiswyr am swydd Comisiynydd yr Heddlu. Byddai rhai'n dadlau mai swydd ddi-angen ydi hi beth bynnag, wn i ddim am hynny, ond fedra' i yn fy myw weld pam fod rhaid dewis rhywun yn enw plaid wleidyddol. Ma hynny ynddo'i hun yn cyfyngu ar y dewis, ac heb gefnogaeth a pheirianwaith plaid a'r ffaith fod angen ymgyrchu a chynrychioli ardal eang, mae'n anodd os nad yn amhosib i unigolyn annibynnol.

A sôn am bleidleisio: yn y Senedd yng Nghaerdydd yn ddiweddar dyma'r mesur i ehangu'r aelodaeth yn cael y golau gwyrdd, a'r mwyafrif o bob plaid ond y Ceidwadwyr yn gytun fod angen i'r aelodaeth gynyddu o 60 i 96, ar gost o dros £17 miliwn o bunnau'r flwyddyn yn ychwanegol. Gwastraff arian oedd hyn yn ôl y 'gleision' sy'n credu fod iechyd, addysg, yr amgylchedd, trafnidiaeth a chartrefi yn amgenach blaenoriaeth. Ond dadl Llafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol oedd fod angen mwy o aelodau er mwyn craffu'n well a'r gynlluniau'r Llywdraeth a'u mesurau newydd yn y dyfodol. Fel y mae hi, yn ôl y ddadl, mae'r baich sydd ar yr aelodau'n ormodol.

Efallai fod yna beth gwirionedd yn hynny os mai dyna sut mae cael senedd deilwng o'i phobl, senedd a fedr wneud ei gwaith yn drylwyr. Ond mae un peth yn boen i mi; o dan y drefn newydd bydd rhestr gaeëdig o ddarpar aelodau, ac yn lle pleidleisio i unigolion fel yn y gorffennol byddwn yn pleidleisio i un o'r pleidiau. Os ydi ychwanegu at aelodau yn cryfhau democratiaeth, mae hyn yn mynd yn groes i hynny. Chreda i byth nad ydi llawer o wleidyddion Senedd Cymru hyd braich a mwy oddi wrth yr etholwyr fel y mae, yn enwedig yr aelodau rhanbarthol. Bydd y dull yma yn eu gyrru ymhellach eto ac yn rhoi grym aruthrol yn nwylo arweinwyr a gweinyddwyr y pleidiau i ddewis 'hogia a genod da ac ufudd', na fydd o unrhyw fygythiad iddyn nhw.

Diniwed iawn ydi hanes diweddar gwleidyddiaeth Gymreig o gymharu â sawl gwlad arall. Meddyliwch mewn difri am Donald J Trump, cyn Arlwydd yr Unol Daleithiau, sydd er ei drafferthion dybryd yn y llysoedd yn llawn hyder y bydd yn ôl eto'n denant y Tŷ Gwyn pan ddaw'r hydref. Yn ddiweddar galwodd griw o lobÏwyr dylanwadol a chysylltiad agos a'r cwmniau olew i gyfarfod yn ei gartref ysblenydd yn Mar-a-Lago i'w hannog i gyfrannu biliwn doler at ei ymgyrch etholiadol. Yr abwyd: am y mil o filiynnau, addewid y byddai'n llacio neu hyd yn oed ddileu llawer o reolau amgylcheddol y wlad sy'n fwgan ac yn rhwystr i'r diwydiant olew ar hyn o bryd. Byddai unrhyw ymyrraeth felly yn tanseilio holl ymdrechion yr Arlywydd Biden i gryfhau deddfwriaethau a fyddai'n lliniaru effaith newid hinsawdd.

Go brin y byddai rhywbeth felly yn digwydd yng ngwleidyddiaeth Cymru meddech chi, tybed felly pam i'r gŵr busnes sy'n gyfrifol am Dauson Eviromental Group roi dau gan mil o bunnau tuag at ymgyrch y Prif Weiniog newydd Vaughan Gething am arweinyddiaeth Llafur Cymru a'r swydd o Brif Weinidog. Eisoes cafwyd David Neal a'i gwmni yn euog o droseddau amgylcheddol ac fel y datgelwyd yn ddiweddar roedd wedi rhoi arian i Gething o'r blaen pan heriodd hwnnw Mark Drakeford yn yr etholiad blaenorol! Na, does na ddim arogl llwgrwobrwyo ym Mae Caerdydd.

ON: Gyda llaw, yn ôl ysgrif gan Richard Cleaves o Ben-y-bont ar Ogwr yn rhifyn cyfredol *Y Traethodydd* perchennog Mar-a-Lago cyn Donald Trump oedd Joseph Davies, mab yr efengyles Rahel o Fôn. Gŵr a oedd yn gyfaill a chydweithiwr i ddau o arlywyddion cynharach America, Woodrow Wilson a Franklin D. Roosevelt.
**DEI TOMOS**

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

# Compton House, Waunfawr




Dyma ddychwelyd i'r Waunfawr y mis hwn eto, a hynny'n benodol oherwydd fod Duncan Brown wedi bod yn adnewyddu'r cartref! Daeth rhai o nodweddion gwreiddiol y tŷ i'r amlwg yn y broses. Compton House oedd yr hen enw arno, a phostiodd Duncan ar y cyfryngau cymdeithasol yn holi a oedd gan unrhyw un wybodaeth am y tŷ a fu mewn cyfnod cynharach, yn siop. Dyna fynd ati, felly, i chwilota.

Nid yw'r enw yn ymddangos ar gofnodion y cyfrifiadau hyd 1881, ond mwy na thebyg fod siop yno yn gynharach na hyn, a hynny i arbed y trigolion rhag cerdded gallt ddigon serth i lawr i'r pentre i siopio, ac yn ôl yn drwmlwythog o nwyddau. Groeslon yw enw'r ardal, ac yn y cyfrifiadau cynharach, prin yw'r enwau ar dai yma. Ceir nifer helaeth yn rhoi eu cyfeiriad fel 'Groeslon'. Llanbeblig, wrth gwrs, oedd y plwyf bryd hynny, cyn i'r Waunfawr ddod yn blwyf sifil ddiwedd y ganrif. Yn 1871 roedd dau *'grocer'* yn cadw siop yn Groeslon, ac y mae posibilrwydd mai Compton House oedd un ohonynt.

Yng Nghyfrifiad 1881 mae'r enw Compton House yn ymddangos, gyda Robert Roberts, gŵr ifanc di-briod, 28ain oed yn cadw *'grocery shop'* yno. Roedd yn enedigol o Benmorfa. Yno hefyd roedd Margaret Jones, yn forwyn, merch ifanc ddi-briod, 21ain oed wedi ei geni yng Ngarndolbenmaen. Am ba hyd, tybed, y buont yno? Erbyn 1889 roedd rhyw Robert ac Ann Jones yn byw yno, oherwydd ceir cofnod ohonynt yn colli plentyn 6 mis oed. Ni wnaethant hwythau aros yn hir wedi'r golled. Erbyn y cyfrifiad nesaf mae teulu arall yn byw yno, ond Robert Roberts yw'r penteulu y tro hwn hefyd, ac y mae hanes go ddiddorol i'r teulu hwn yn ardal Groeslon Waunfawr.

Mae hi bellach yn 1891, ac mae'n ymddangos fod Compton House wedi peidio a bod yn siop. 'Pobol ddwad' oedd yma eto: Robert Roberts wedi ei eni yn Llangian tua 1845, a'i wraig, Laura wedi ei geni yn Llanllyfni tua 1844 (ond honna mewn rhai cyfrifiadau mai yn Llanrug y cafodd ei geni). Chwarelwr oedd gwaith y penteulu fel y mwyafrif o drigolion Groeslon y pryd hynny. Roedd dau o'r meibion – Humphrey a William – hefyd yn chwarelwyr. Roedd yno hefyd enethod o'r enw Catherine a Laura, a bachgen ifanc o'r enw Rowland. Yr unig fab arall oedd Owen, sy'n cael ei ddisgrifio fel prentis crydd, ac yntau'n bymtheg oed. Ond ymhle a gyda pwy roedd yn bwrw'i brentisiaeth?

Roedd Humphrey a'i frawd ieuengach, Rowland, yn magu cŵn, ond nid yn llwyddiannus iawn yn ôl pob tebyg. Ym mis Mai 1896 yn adran y '*best pointer*' yn y Portmadoc Horse, Dog and Poultry Show daeth Rowland yn drydydd. Ond dim ond tri oedd yn cystadlu! Ddiwedd Medi yr un flwyddyn daeth Humphrey yn drydydd gyda '*sporting dog or bitch*' yn Arddangosfa Amaethyddol Bethesda. A dyna'r cyfan o gofnodion am lwyddiannau'r brodyr.

Ond diffyg llwyddiant yn magu ac arddangos cŵn oedd y lleiaf o broblemau'r teulu. Ym mis Mawrth y flwyddyn ganlynol – 1897 – roedd Robert Roberts o flaen ei well yn Llys Methdalwyr Bangor gyda dyled o £400 ac asedau o ddim ond £47. Roedd yn amlwg o'r achos ei fod wedi agor Compton House fel siop gwerthu esgidiau ers bron i saith mlynedd, ond wedi prynu neu rentu siop arall yn Llanberis i wneud yr un gwaith. Bon Marche oedd y siop honno, ac mae'n debygol iddo agor busnes yn y fan honno yn fuan wedi Awst 1892. Dyna pryd y rhoddwyd lês 30 mlynedd y siop ar werth gan Elusen Tlodion Rhuthun, gyda rhent blynyddol o £3 a 5 swllt y flwyddyn. Roedd yn adeilad mawr. Ar wahân i'r siop roedd deg o ystafelloedd eraill yno. Menter go fawr ac uchelgeisiol i rywun a oedd, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, â dim profiad blaenorol yn y fath fusnes. Mae'n bosib fod ei ferch, Catherine, yn gofalu am Bon Marche. Cyfaddefodd hefyd nad oedd wedi cadw cyfrifon ariannol digon manwl. Bu'n rhaid symud allan o Compton House, ond arhosodd y teulu yn ardal Groeslon Waunfawr, ac erbyn 1901 roeddent yn byw yn 3 Bryn Delyn. Erbyn hyn roedd Robert, ei feibion William, Humphrey a Rowland, ynghyd â William, mab mabwysiedig, i gyd yn gryddion. Maent yn parhau yno yn 1911, ond Humphrey a Rowland yw'r unig ddau sy'n gryddion bellach.

Mae'r traddodiad o gryddion yn yr ardal yn mynd yn ôl i 1871. Bryd hynny roedd Robert Roberts a'i wraig Catherine yn byw yn 'Groeslon'. Roedd pob aelod o'r teulu wedi eu geni yn Llangian. Roedd eu mab, Isaac, yn byw gyda hwy. Crydd oedd Robert Roberts, ac yn cyflogi un arall. Dyma rieni Robert y methdalwr. Erbyn 1881 mae tri aelod o'r un teulu yn byw y drws nesaf i'w gilydd yn 'Groeslon'. Robert, y tad a'i deulu; Robert y mab a'i deulu, ac Isaac, mab arall a'i deulu. Mae'n bosib mai prentis i'w daid oedd Owen, mab pymtheg oed Robert. Dyna felly dros 40 mlynedd ble bu aelodau o'r teulu yn gryddion yn Groeslon Waunfawr. Tybed a fu galwedigaeth fel crydd yn hwb i Robert geisio ei lwc yn agor siop esgidiau yn Compton House?

Wedi i deulu Robert Roberts ymadael o Compton House, daeth Roberts arall – Hugh y tro hwn – i gadw siop cigydd yno yn 1901, ond erbyn 1911 roedd wedi ymddeol, ac yn byw gyda'i ferch a'i fab-yng-nghyfraith yn Fach Goch, Waunfawr. Methais a darganfod yr enw Compton House yn 1911.

Ond pam Compton House? Roedd digon o siopau ym mhentrefi'r fro lai na chanrif yn ôl yn cario enwau megis Manchester House, Liverpool House (roedd y ddau yn y Waunfawr ar un cyfnod), London House a hyd yn oed Melbourne House. Roedd yr enwau'n cael eu defnyddio i geisio perswadio eu cwsmeriaid fod beth bynnag a werthid yno cystal ag unrhyw beth oedd ar werth yn y dinasoedd rheini. Oedd, roedd ein cyn-deidiau yn gwybod sut i farchnata eu cynnyrch! Ond Compton House? Ganrif a hanner yn ôl, byddai'r enw wedi gwneud llawer mwy o synnwyr i siopwyr y fro nac a wna'r enw heddiw.

Compton House oedd un o siopau mwyaf, os nad y fwyaf yn ninas Lerpwl. Sefydlwyd y busnes yn 1832 gan ddau frawd o Plymouth – William a James Jeffrey. Dywedir mai hon oedd y siop adrannol (*department store*) gyntaf yn Ewrop, oedd yn arbenigo mewn dilladau, defnyddiau a sidan. Roedd pump llawr i'r adeilad, a 180 o weithwyr y siop yn byw yn rhannau uchaf yr adeilad. Ond ym mis Rhagfyr 1865 fe'i llosgwyd yn fwriadol gan un o'r gweithwyr a gafodd ei gyhuddo o ddwyn o'r siop. Fe gafodd y siop ei hail-adeiladu, ac agorodd unwaith yn rhagor o fewn llai na dwy flynedd i'r tân dinistriol. Ond oherwydd salwch difrifol un o'r brodyr a chostau'r ail-adeiladu, roedd y busnes yn fethdalwyr erbyn 1871. Fe'i gwerthwyd a'i hail-agor fel gwesty moethus, gan barhau felly hyd 1927 pan brynwyd yr adeilad gan Marks & Spencers. Bu'r M&S yno hyd y llynedd, ac y mae bellach ym meddiant Grŵp Frasers.

Does ryfedd felly fod yr enw Compton House wedi ei ddefnyddio fel enw siop mewn nifer helaeth o drefi a phentrefi led-led gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Yn ogystal â'r Compton House yn y Waunfawr, roedd un ar y brif stryd yn Llanberis ac yn Ebenezer (Deiniolen) hefyd.

O.N. Mae gen i gof plentyn o Grydd bach Waun yn cadw siop ar safle hen garej Hafod yn Llanrug. Ar y pryd, wyddwn i mo'i enw- 'Crydd bach Waun' oedd o i bawb. Ond mae ei hanes wedi ei adrodd mewn rhifynnau cynnar o'r *Eco*; Rowland Roberts oedd ei enw bedydd, ac yn y Groeslon, Waunfawr roedd yn byw, gan gerdded oddi yno i Lanrug bob dydd. Roedd wedi bod yn grydd yn Llanrug am dros hanner can mlynedd. Felly, mae'n fwy na thebyg mai un o deulu'r cryddion uchod oedd hwn hefyd.



Os oes gan unrhyw un fwy o wybodaeth am Compton House neu deulu'r cryddion, cysylltwch. Cysylltwch hefyd gydag unrhyw ymholiad am hanes bro'r *Eco*. Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA neu ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

# PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Cynhaliwyd rhialtwch 'Miri Mai' yn y Neuadd Gymuned ar nos Fercher 22ain Mai gyda tombola, gemau bwrdd, byrddau gwerthu a chyfle am sgwrs dros baned. Tynnwyd Clwb Cant Mai gan erfyn am fwy o aelodau am £12 o Fedi i Fedi – gweithgaredd sy'n hwb tuag at y gôst o redeg y Neuadd Gymuned. Mwynhawyd rasus i bob oedran ar gaeau'r Ysgol gyda diolch i Phyllis y dyfarnwr am ofalu am bopeth, gan gynnwys y gwobrau. Diolchir i bawb am gefnogi gweithgareddau'r Pwyllgor.

**Eisteddfod Bentref 2024**
Cynhelir Eisteddfod eleni ar nos Fercher 17eg Gorffennaf. Byddwn yn dosbarthu rhaglen testunau'n fuan a bydd ymarferion yn dechrau ar nosweithiau Mercher ar ôl Sulgwyn. Croesawir y pentref cyfan i gymeryd rhan ac i gefnogi'r Eisteddfod.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Gareth, Caryl, Branwen a Math, Ysgubor Cae Corniog, a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli tad a thaid, Harry Griffiths o Groeslon.

**Pen-blwydd arbennig**
Pob dymuniad da i Bedwyr (Sycharth gynt) ar gyrraedd 50 oed ar 9fed o Fai. Llawer o gariad gan Lisa, Mam a Dad, Eurgain Haf a'r teulu, Osian Dafydd a'r teulu ac wrth gwrs Walt y ci bywiog a chroesawgar.



**Gwobr rhoi gwaed**
Hoffem longyfarch Glenn Lamb, 7 Bryn Eglwys, ar dderbyn gwobr gan Wasanaeth Gwaed Cymru am roi gwaed dros 50 o weithiau – gan ddechrau pan oedd o'n lanc 21 oed. Derbynniodd Glenn wobr mewn noson wobrwyo yng Ngwesty'r Celtic Royal yn ddiweddar.

Mi fydd Glenn hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig – 50 oed – ddechrau mis Mehefin. Pen-blwydd hapus iawn oddi wrth y teulu oll – gobeithio bydd digonedd o ddathlu!



**Noson Hen Luniau**
Diolch o galon i bawb a gefnogodd y noson hen luniau ddiwedd Ebrill. Roedd yn braf gweld Neuadd yr Eglwys yn llawn, a chasglwyd bron i £200 tuag at gostau cynnal a chadw'r Neuadd. Diolch hefyd i Gareth o Menter Fachwen am gyflwyniad difyr.

**Eglwys Santes Helen**

Gwasanaethau:

26ain Mai 11.00am- Yr Offeren Sanctaidd
Gwasanaethir gan y Ficer Newydd y Ganon Naomi Starkey.

2il, 9fed a'r 16eg Mehefin am 11.00am – Yr Offeren Sanctaidd

23ain Mehefin am 11.00am – Boreol Weddi

30ain Mehefin am 11.00am – Yr Offeren Sanctaidd

Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen
2il Mehefin am 3pm – Yr Offeren Sanctaidd

# Pêl-droed

Daeth y gynghrair sy'n rhoi cartref i'r ddau dîm lleol – Llanberis a Llanrug (trefn yr Wyddor!) i ben yn swyddogol ar 11eg o Fai. Ond doedd yr un o'r ddau dîm wedi gorffen eu gemau. Digon tebyg oedd hanes ail dimau y clybiau hyn hefyd. Bydd eu gemau, felly, yn parhau hyd bron i ddiwedd y mis. Mae'r ddau dîm wedi ennill eu lle yng ngemau cyn-derfynol Cwpan y Cynghrair: Llanberis yn erbyn Bae Trearddur a Llanrug yn erbyn Glantraeth. Mae'n fwy na phosib y bydd y gêm derfynol wedi bod erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Does ond gobeithio fod y ddau dîm wedi cyrraedd y ffeinal!

Bu'n dymor gwlyb eithriadol, ac amharwyd ar nifer helaeth o gemau rhwng diwedd Ionawr a dechrau Mawrth oherwydd cyflwr y caeau. Ydi cynhesu byd-eang, sy'n achosi cyfnodau o lawogydd eithafol, yn mynd i newid amseroedd y tymhorau pêl-droed? Amser yn unig a ddengys. Mae gan yr awdurdodau yng Nghymdeithas Bêl-droed Cymru gryn dipyn o grafu pen i'w wneud dros y misoedd nesaf. Does ond gobeithio y gwneir penderfyniadau call a rhesymol – a rhai fydd yn bodloni y timau sy'n ddibynnol ar weithwyr gwirfoddol lleol i gynnal y gêm yn y gwahanol bentrefi.

Mae sôn fod y VAR bondigrybwyll yn cael ei gyflwyno i Uwch Gynghrair Cymru y tymor nesaf. O gysidro'r beirniadu di-baid sydd ar y system yn Uwch Gynghrair Lloegr, mae'n amheus faint o groeso a gaiff yng Nghymru.

Yn olaf, un nodyn bach i ddangos pa mor anodd yw hi i'r awdurdodau wneud penderfyniad. Ddechrau fis Mai roedd ail dîm Llanrug i fod i groesawu ail dîm Bow o Brestatyn i Gae Eithin Duon, a hynny ar nos Fercher. Deallwn fod y tîm o Brestatyn wedi cysylltu â swyddogion y gynghrair yn honni na allent gyrraedd Llanrug mewn pryd i'r gêm. Y canlyniad? Gorfodwyd Llanrug i deithio i Brestatyn. Ydi, mae pawb yn gwybod fod y daith o Lanrug i Brestatyn yn llawer llai ac yn llawer cynt na'r daith o Brestatyn i Lanrug. Deud dim. Hwnna ydio, chwedl Ifans y Tryc.

# Y Cymry yn y Crucible



Jamie Jones

Ddiwedd Ebrill a dechrau Mai roedd llygaid y byd snwcer ar Sheffield a Theatr y Crucible ar gyfer Pencampwriaeth y Byd. Unwaith eto eleni, roedd yno gynrychiolaeth dda o Gymru, gyda 6 chwaraewr o'r 32 chwaraewr yn Gymry.

Y cyntaf i chwarae yn y rownd agoriadol oedd detholyn rhif 44 y byd, Jak Jones, yn erbyn Zhang Anda o Tsiena. Cychwyn gwych i'r gŵr o Gwmbrân, a sioc i gychwyn y gystadleuaeth wrth iddo ennill o 10 ffrâm i 4 yn erbyn rhif 11 ar rhestr detholion y byd.

Yr ail Gymro i chwarae oedd y pencampwr byd ar dri achlysur, a'r mwyaf diweddar o'r tri yn 2018, Mark Williams. Un arall o Tsiena oedd yn wynebu Williams, sef Si Jiahui. Roedd Williams yn dod i'r gystadleuaeth mewn hwyliau da wedi iddo ennill y gystadleuaeth ddiweddaraf ar y Gylchdaith, y *Tour Championship,* ym Manceinion ychydig wythnosau'n gynharach. Ond siom oedd hi i'r cyn bencampwr byd. Â'r sgôr yn gyfartal ar 9 ffrâm yr un, enillodd Si Jiahui y ffrâm olaf gyda rhediad o 77 ac felly'n curo Williams o 10 ffrâm i 9.

Roedd mwy o siom i Gymru yn y rownd agoriadol. Roedd Dominic Dale yn ôl yn y Crucible am y tro cyntaf ers 10 mlynedd, ond colli oedd ei hanes o 10 ffrâm i 1 yn erbyn y detholyn rhif 12, Kyren Wilson o Loegr. Colli oedd hanes y detholyn 41 yn y byd, Jamie Jones, hefyd, o 10 ffrâm i 6 yn erbyn y pencampwr byd ar bedwar achlysur, John Higgins.

Daeth newyddion da gyda detholyn rhif 18 y byd, Ryan Day, o Benybont, wrth iddo ennill o 10 ffrâm i 8 yn erbyn Barry Hawkins o Loegr. Ond talcen caled iddo yn yr ail rownd wrth iddo wynebu'r Pencampwr Byd ar 7 achlysur, Ronnie O'Sullivan. Roedd O'Sullivan wedi curo Cymro arall yn y rownd gyntaf, detholyn 43 y byd o Flaenau Gwent, Jackson Page, o 10 ffrâm i 1. O'Sullivan enillodd eto, gan guro Ryan Day o 13 ffrâm i 7.



Ryan Day

Si Jiahui, a drechodd Mark Williams, oedd yn wynebu Jak Jones yn yr ail rownd, gyda Jones yn fuddugol o 13 ffrâm i 9.

Felly, erbyn y drydedd rownd, sef rownd yr wyth olaf, Jak Jones oedd yr unig Gymro ar ôl yn y gystadleuaeth, a Phencampwr y Byd yn 2019, Judd Trump, oedd yn ei wynebu. Roedd Trump, 3ydd detholyn y byd, yn ffefryn clir ac yntau wedi ennill 5 teitl ar y gylchdaith yn ystod y tymor. Roedd hi'n gêm dynn, a'r sgôr yn 9 ffrâm yr un wedi 18 ffrâm. Ond gwelodd Jones ei gyfle wrth iddo gipio 4 ffrâm o'r bron ac ennill o 13 ffrâm i 9, gan ennill ei le yn y rownd gyn derfynol.

Cyn Bencampwr Byd arall oedd yn ei wynebu nesaf, sef enillydd y gystadleuaeth yn 2015, Stuart Bingham. Roedd hi'n dynn rhwng y ddau wedi 17 ffrâm, gyda Bingham ar y blaen o 9 ffrâm i 8. Ond cipiodd y Cymro 5 ffrâm yn olynol, ac wedi 3 sesiwn o chwarae roedd Jones ar y blaen o 13 ffrâm i 9. Cadwodd ei fantais yn y sesiwn olaf, ac ennill o 17 ffrâm i 12 a sicrhau ei le yn y ffeinal. Roedd Jak Jones wedi cyrraedd rownd derfynol Pencampwriaeth Snwcer Y Byd am y tro cyntaf, a dod y 7fed Cymro i wneud hynny. Hon hefyd oedd y rownd derfynol gyntaf i Jones ar y gylchdaith broffesiynol.



Dominic Dale

Detholyn 12 y byd, Kyren Wilson, oedd yn ei wynebu yn y ffeinal. Dyma ail ymddangosiad Wilson yn rownd derfynol Pencampwriaeth y Byd, wedi iddo golli yn erbyn Ronnie O'Sullivan yn 2020.

Doedd hi ddim y cychwyn delfrydol i'r ffeinal i Jak Jones. Roedd y nerfau i weld yn cael y gorau arno wrth i Wilson gipio'r 7 ffrâm agoriadol cyn i Jones ennill ei ffrâm gyntaf yn ffrâm olaf y sesiwn agoriadol. Roedd yr ail sesiwn yn well i Jak Jones. Daeth yn ôl i'r gêm, a chyn sesiwn olaf yr ail sesiwn roedd Wilson ar y blaen o 10 ffrâm i 6. Cafwyd cyffro mawr yn ffrâm olaf y sesiwn. Methodd Jones ei gyfle i botio'r bêl ddu, a chipiodd Wilson y ffrâm gan orffen y diwrnod cyntaf ar y blaen o 11 ffrâm i 6 wedi dau sesiwn.

Er i Jak Jones gychwyn y trydydd sesiwn gan ennill y ddwy ffrâm agoriadol, gorffennodd y sesiwn yn gyfartal gyda Wilson felly'n dal mantais o 5 ffrâm (15 i 10) cyn y sesiwn olaf.

Roedd rhaid i Jones gychwyn y sesiwn olaf yn gryf os oedd am fod y pedwerydd Cymro i ennill Pencampwriaeth y Byd gan mai tair ffrâm yn unig oedd eu hangen ar Wilson i gipio'r tlws. Wilson enillodd ddwy o'r tair ffrâm agoriadol, i ddod â'r sgôr yn 17 ffrâm i 11. Roedd hynny'n golygu y byddai rhaid i Jones ennill saith ffrâm yn olynol. Roedd Jak Jones wedi dechrau ymlacio, ac roedd y pwysau'n dechrau dweud ar Wilson. Llwyddodd Jones i gau'r bwlch trwy ennill 3 ffrâm yn olynol, ond roedd ganddo ormod i'w wneud, ac enillodd Kyren Wilson y 32ain ffrâm. Roedd felly wedi ennill y rownd derfynol o 18 ffrâm i 14 a chael ei goroni yn Bencampwr y Byd am y tro cyntaf.

Er iddo golli yn y rownd derfynol, roedd yn bythefnos anhygoel i'r gŵr o Gwmbrân ac yntau wedi cyrraedd ei rownd derfynol gyntaf ar y gylchdaith. Doedd hi ddim i fod eleni; ond mi fydd yn enw y bydd angen cadw llygaid arno o hyn allan. Roedd hi'n wych gweld chwe Chymro ym Mhencampwriaeth Snwcer y Byd eleni. Mae snwcer Cymru mewn lle da.


**Elgan Rhys Jones**



Mark Williams




Jak Jones



Jackson Page

# Dal i redeg...






**SheUltra**
Ym Mhen Llŷn y cynhaliwyd y ras Ultra gyntaf ym Mhrydain a honno wedi ei chyfyngu i ferched yn unig, ac yr oedd tair o ferched lleol yn cystadlu. Huw Williams, sy'n trefnu nifer o rasys pellter hir ym Mhen Llŷn, oedd yn gyfrifol am y ras, a daeth bron i 400 o ferched i gystadlu, gan redeg a cherdded y cwrs 50 cilomedr. Merched hefyd oedd pob un o swyddogion y ras, a merched oedd yn stiwardio ar wahanol safleoedd ar hyd y cwrs. Yr enw 'SheUltra' yn gweddu'n arbennig i'r gystadleuaeth. Cyn bo ras yn cael ei galw yn 'Ultra', mae'n rhaid iddi fod yn fwy o ran pellter na Ras Marathon (26 milltir). Ydi, mae rhedeg marathon wedi mynd yn ddigon cyffredin bellach, a nifer helaeth ohonynt yn cael eu cynnal led-led y wlad.

Roedd Ultra Pen Llŷn yn cychwyn ym Mhwllheli ac yn dilyn Llwybr yr Arfordir i Abersoch cyn dringo i Fynytho ac yna parhau i'r gogledd cyn cylchu Garn Fadryn ac anelu am Fotwnnog. Oddi yno, croesi ar draws i Borth Neigwl; ail ymuno â Llwybr yr Arfordir a'i ddilyn o amgylch Trwyn Cilan cyn disgyn i'r traeth ger Bwlchtocyn. Rhedeg ar y traeth wedyn yr holl ffordd i'r diwedd ym mhen draw Traeth Abersoch gyferbyn â'r Clwb Hwylio.

Roedd Fiona Morgan (Bethel), ei nith Shannon Owen (Llanrug) a Rhian Thomas (Llanrug) ymhlith y 25 rhedwr cyntaf i orffen y cwrs mewn tua 6 awr. Roeddent wedi cychwyn o Bwllheli am saith y bore, a chyrraedd y llinell derfyn mewn pryd i ginio! Byddai'r trefnwyr yn parhau ar y traeth tan ddeg o'r gloch y nos yn disgwyl y rhedwyr/cerddwyr olaf. Llongyfarchion i'r tair ohonynt.



**Marathon Milton Keynes**
Daeth llwyddiant unwaith eto i'r gŵr a gwraig o Fethel, Hugh a Fiona Morgan. Cafodd y ddau ohonynt eu hamseroedd gorau erioed ar redeg marathon. Gorffennodd Hugh mewn 3 awr a 33 munud, a Fiona mewn 3 awr a 47 munud. Roedd amser Fiona yn ddigon cyflym o fewn ei grŵp oedran i sicrhau'r cyfle iddi gael mynediad i Farathon Boston yn yr UDA y flwyddyn nesaf.

**Rasys Nos Fawrth**
Ymwelodd y gyfres â bro'r Eco am y tro cyntaf eleni, sef Ras Pen Dinas, Nant Peris. Yr oedd cryn bryder yn ystod y dydd a fyddai'n cael ei chynnal. Cafwyd glawogydd eithriadol yn ystod y dydd a niwl trwchus dros y mynyddoedd. Ond yn rhyfeddol, erbyn saith yr hwyr, ciliodd y glaw a chliriodd y niwl. Er hynny, roedd y ddaear yn socian o wlyb, ac ofnid y byddai'n llithrig ryfeddol. Ond y syndod oedd fod pawb wedi gorffen yn ddiogel, a fawr neb wedi llithro ar yr allt hynod o serth. Y gyfrinach yn ôl un rhedwr profiadol oedd rhedyn. Roedd digonedd o redyn crin yn drwchus ar y llethr, ac o gamu ar y twmpathau hyn roedd digon o afael yn yr esgidiau i warchod rhag llithro.





**Ras Moel Eilio**
Mis Mai yw'r amser traddodiadol i gynnal y ras o Lanberis i grib Moel Eilio ac ymlaen dros gopaon Foel Gron, Foel Goch a Moel Cynghorion cyn gorffen yn ôl yn Llanberis. Eleni roedd bron i gant a hanner o redwyr o wahanol rannau o Gymru a Lloegr yn cystadlu; tystiolaeth fod hon yn un o rasys 'clasurol' y byd rhedeg mynydd. Roedd holl elw'r ras yn cael ei gyflwyno i elusen ymchwil cancr. Ein diolch i'r trefnwyr a'r cynorthwywyr am gadw'r traddodiad.

**Ras Rhostryfan**
Cynhaliwyd y ras i godi arian i Ysgol Rhostryfan, ac er mai ras ffordd yw hon, mae cryn dipyn o ddringo ynddi, yn enwedig yr allt o'r pentref i fyny am Rosgadfan. Llongyfarchiadau i Arwel Lewis, Bethel am ddod yn gyntaf yn yr adran dros 60 oed. Diddorol nodi mai Rhedwyr Cybi o Fôn sydd wastad yn anfon carfan dda i gynrychioli'r clwb yn y ras hon.

**Ras 5K Llanrug**
Cynhelir y ras hon ar y 5ed o Fehefin, ac y mae wedi profi'n hynod boblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n ddigon byr i rai sydd newydd ddechrau rhedeg fedru ei chwblhau'n weddol ddi-drafferth, ac yn ddigon gwastad i herio'r rhedwyr profiadol i geisio am eu hamser gorau. Bydd cofrestru ar gyfer ras y plant (oedran cynradd yn unig) yn agored yn yr Ysgol Gynradd am 5.00pm, a chofrestru ar gyfer y brif ras am 6.15pm. Bydd y ras yn cychwyn am 7.30pm. Mae disgwyl i nifer sylweddol o redwyr ddod i gystadlu oherwydd mae'r ras wedi ei dewis fel rhan o Bencampwriaeth Gogledd Cymru.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >